



Cyfarfod

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD IAU, 1AF HYDREF, 2026

Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu

https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home

Noder: Cynhelir Sesiwn Briffio l'r Aelodau am 10:00yb

Lleoliad

Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor Caernarfon

Ac yn rhithiol drwy Zoom

Pwynt Cyswllt

Rhodri Jones

01286 679556

rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

AELODAETH (18)

Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes
Arwyn Herald Roberts
(Sedd Wag)
Dafydd Davies

Elwyn Edwards
Linda Morgan
Beca Roberts
Berwyn Parry Jones

Delyth Lloyd Griffiths
Edgar Wyn Owen
Jina Gwyrfai
Elfed Williams

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Wendy Cleaver
Peter Thomas
(Sedd Wag)

Elfed Powell Roberts
Gruffydd Williams

Gwynedd yn Gyntaf (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

4 - 13

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2026 fel rhai cywir.

5. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR 2025/26 14 - 50

I graffu Adroddiad Blynyddol Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2025/26.

6. CYNNAL PRIFFYRDD - GOSOD MARCIAU FFORDD

51 - 73

I adolygu trefniadau presennol.

7. CAU FFYRDD MEWN ARGYFWNG

74 - 83

I sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli a chydlynau cau ffyrdd mewn amgylchiadau brys ac argyfwng.

8. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2026/27

84 - 86

Cyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 i'w mabwysiadu.

9. CYFARFODYDD HERIO PERFFORMIAD

87 - 89

I enwebu cynrychiolwyr I fynychu cyfarfodydd herio perfformiad.

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, 11 MEHEFIN 2026

Presenoldeb:

Y CYNGHORWYR:

Elwyn Edwards, Beca Roberts, Berwyn Parry Jones, Delyth Lloyd Griffiths, Edgar Wyn Owen, Jina Gwyrfai, Elfed Williams, Arwyn Herald Roberts, Dafydd Davies, Wendy Cleaver, Elfed Powell Roberts, Gruffydd Williams, Robert Glyn Daniels, Peter Thomas a Stephen Churchman.

Swyddogion yn bresennol:

Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) a Catrin Thomas (Cyfarwyddwr Corfforaethol).

Yn bresennol ar gyfer Eitem 7:

Y Cyngorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol) a Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd).

Yn bresennol ar gyfer Eitem 8:

Y Cyngorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd), yn ogystal â Gareth Jones, Roland Thomas a Gerwyn Jones (Pennaethiaid Cynorthwyol).

Yn bresennol ar gyfer Eitem 9:

Y Cyngorydd June Jones (Aelod Cabinet Prifffyrdd, Peirianeg ac YGC), Steffan Jones (Pennaeth Adran Prifffyrdd, Peirianeg ac YGC), yn ogystal â Meirion Williams, Emlyn Jones (Pennaethiaid Cynorthwyol) a Nia Wyn Vaughan (Uwch Swyddog Prosiectau).

1. ETHOL CADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cyngorydd Elfed Powell Roberts yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2026/27.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cyngorydd Beca Roberts yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2026/27.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorwyr Linda Morgan ac Annwen Hughes.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2026, fel rhai cywir.

7. CYFARWYDDYD ERTHYGL 4

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Amgylchedd, Pennaeth Adran Amgylchedd, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Phennaeth Cynorthwyol Amgylchedd.

Eglurodd y Pennaeth Cynorthwyol, bod pryderon am y nifer uchel o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr a oedd yn bodoli yng Ngwynedd, a bod Cabinet Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno adroddiad yn manylu ar waith ymchwil yn y maes yma, i Lywodraeth Cymru yn 2020. Ymhelaethwyd bod yr adroddiad hwnnw yn gofyn am fesurau i fynd i'r afael â'r pryderon hynny, megis newidiadau i'r gyfundrefn cynllunio er mwyn rheoli ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr.

Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru, mewn ymateb, wedi cyflwyno newidiadau i'r gyfundrefn gynllunio yn 2022 a oedd yn creu tri dosbarth defnydd cynllunio newydd. Nodwyd bod y rhain yn diffinio 'prif gartref', 'ail gartref' a 'llety gwyliau tymor byr'. Ychwanegwyd eu bod hyn yn rhoi hawliau i newid o un dosbarth defnydd i'r llall heb yr angen am ganiatâd cynllunio. Fodd bynnag, eglurwyd bod modd i awdurdodau lleol fynd drwy broses i gyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer ardaloedd ble mae tystiolaeth bod nifer uchel o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr yn effeithio'r ardal yn negyddol. Cadarnhawyd bod cyfarwyddyd Erthygl 4 yn declyn cynllunio sydd wedi cael ei ddefnyddio ers nifer o flynyddoedd i reoli mathau gwahanol o ddatblygiadau megis addasiadau i adeiladau mewn ardaloedd cadwraeth neu i reoli defnydd o dai amlfeddiannaeth yn Lloegr.

Pwysleisiwyd nad oedd cyfarwyddyd Erthygl 4 wedi cael ei ddefnyddio i geisio rheoli ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr.

Cadarnhawyd mai Cyngor Gwynedd oedd yr awdurdod lleol cyntaf i ymgymryd â'r broses o gyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 er mwyn ceisio rheolaeth well o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr. Pwysleisiwyd fod y Cyngor yn ymwybodol o'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r broses o gyflwyno'r cyfarwyddyd, gan sicrhau bod hyn yn cael ei cofnodi ar gofrestr risg yr Adran. Adroddwyd bod mesurau mewn lle i reoli'r risgiau cyn belled ag oedd yn rhesymol bosib, drwy gydol y broses.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol fod y penderfyniad wedi cael ei wneud ym mis Mehefin 2023, i gyflawni'r broses o sefydlu cyfarwyddyd Erthygl 4 dros gyfnod o ddwy flynedd. Esboniwyd bod y penderfyniad hwn wedi cael ei wneud er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei hysbysebu am dros 12 mis er mwyn osgoi heriau iawndal. Adroddwyd bod y cyfarwyddyd wedi dod i rym yn 2024.

Manylwyd bod yr her gyfreithiol a gyflwynwyd yn ymwneud yn bennaf â'r ymgynghoriad cyhoeddus a gyflawnwyd, nid ar gyfer y broses o gyflwyno'r cyfarwyddyd.

Eglurwyd bod yr her gyfreithiol lwyddiannus yn nodi bod adroddiad wedi gwneud camagraff ar y Cabinet wrth iddynt benderfynu ar y mater, oherwydd newid materol oedd yn yr adroddiad. Ychwanegwyd bod peidio cynnwys y newid materol hwn o fewn y ddogfennaeth, yn ei wneud yn anghyflawn ac yn ymddangos yn gamarweiniol. Tynnwyd sylw bod newid materol yn elfen sylfaenol i'r maes cynllunio ac felly ni fyddai'r adroddiad yn gamarweiniol os yw'r gynulleidfa briodol yn deall y maes gwaith. Nodwyd

bod y Llys o'r farn nad oedd y Cabinet yn deall y maes gwaith, yn wahanol i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio, er bod rhai o aelodau'r Cabinet gyda phrofiad o fynychu'r pwyllgor hwnnw fel Aelodau.

Pwysleisiwyd nad oedd unrhyw gamarwain bwriadol na maleisus yn rhan o'r broses.

Tynnwyd sylw at Adran 31 Deddf Llysoedd Uwch sydd yn ystyried os byddai'r llys yn dod i gasgliad gwahanol, a fyddai hynny yn gwneud gwahaniaeth. Nodwyd o'r angen i'r Llys fod yn hyderus byddai'n 'debygol iawn' y byddai'r penderfyniad yn arwain i'r un lle er mwyn parhau i gyflwyno'r cyfarwyddyd. Eglurwyd bod y Llys wedi nodi mai 'tebygol' o arwain i'r un lle byddai'r achos hwn ac felly penderfynwyd nad oedd y cyfarwyddyd yn weithredol mwyach o'r herwydd.

Cadarnhawyd bod y Cyngor wedi cyflwyno cais i apelio'r penderfyniad hwn ond bod y cais hwnnw wedi cael ei wrthod.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Gofynnwyd am eglurder o ran diffiniadau nifer o dermau perthnasol megis y gwahaniaeth rhwng 'newid defnydd' ac 'newid defnydd sylweddol'. Ymhellach mynnwyd eglurder pellach ar sut roedd yr adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cabinet wedi camarwain yr Aelodau yn sylweddol, yn nhyb y barnwr. Yn ogystal, fel holwyd os oedd unrhyw wahaniaethau yn nogfennaeth y cyfarfod hwn gyda'r dogfennaeth a gyflwynwyd i'r Cabinet wrth iddynt ddod i benderfyniad.

Mewn ymateb i ymholiad ar natur gamarweiniol yr adroddiad, pwysleisiodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol bod yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet yn defnyddio geiriad statudol a'i fod yn ymdrech didwyll i gyflwyno gwybodaeth i'r Cabinet, yn ei gyfarfod ar 13 Mehefin 2023. Eglurwyd y disgrifir yr adroddiad fel 'camarweiniol' oherwydd bod y Llys yn amlygu'r angen am lefel eglurhad uwch o wybodaeth i'r aelodau Cabinet. Atgoffwyd bod yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet yn un a oedd yn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y mater, ble roedd dros 3,000 o ymatebion wedi eu derbyn, gyda'r bwriad o gyflwyno adlewyrchiad teg o gynnwys yr ymatebion hynny. Ymhelaethodd y Pennaeth Cynorthwyol nad oedd yn rhesymol rhagweladwy i ddisgwyl her gyfreithiol i'r broses yn seiliedig ar y defnydd o'r eirfa "newid defnydd materol" yn gan fod yr adroddiadau wedi defnyddio'r un eirfa a'r statud a Pholisi Cynllunio Cymru. Manylwyd bod trefniadau wedi cael eu rhoi mewn lle i sicrhau bod adroddiadau yn cael eu hadolygu gan gynllunwyr profiadol, yr Adran Gyfreithiol a bargyfreithwyr cyn iddynt gael eu cyhoeddi. Tynnwyd sylw bod holl ddogfennaeth cyfarfodydd y Cabinet ar y 13 Mehefin 2023 a'r 16 Gorffennaf 2024 yn parhau i fod yn gyhoeddus a'u bod wedi derbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn flaenorol, yn ei gyfarfod ar y 09 Mawrth 2023 a'r 16 Mai 2024

Gofynnwyd am ddata penodol am y gost ariannol o gyflwyno'r broses ac i ymateb i'r her gyfreithiol. Yn yr un modd, cwestiynwyd pam bod swyddogion wedi mynd ati i apelio'r penderfyniad o ystyried bod eu dogfennaeth yn ddiffygiol. Gwnaed cais i dderbyn crynodeb o fethiannau a arweiniodd at yr her gyfreithiol gan ofyn os oes unrhyw adolygiad neu prosesau disgyblu ar waith.

Mewn ymateb, eglurodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran bod costau cyfreithiol ar gyfer amddiffyn yr her gyfreithiol hon oddeutu £60,000. Pwysleisiwyd na ystyrir fod yr arian sydd wedi ei wario hyd yma yn wastraff o arian trethdalwyr oherwydd ei fod yn fuddsoddiad cadarn i'r dyfodol, ei fod wedi caniatáu i'r Cyngor ddatblygu arbenigedd ei swyddogion a'i fod wedi bod o gymorth sylweddol i awdurdodau eraill sydd yn ystyried neu wedi ymgymryd â'r broses o gyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4. Cydnabuwyd bod

gwersi wedi cael eu dysgu. Ychwanegodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol bod trefniadau'r Cyngor yn ei wneud yn ofynnol iddo fel y Swyddog Monitro ac i'r Pennaeth Cyllid, asesu priodoldeb adroddiadau sydd yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ac i'r Cyngor Llawn, gan bwysleisio mai'r her gyfreithiol hwn yw'r tro cyntaf i her gyfreithiol ddod ymlaen yn dilyn y drefn hon. Pwysleisiwyd bod y penderfyniad i amddiffyn achos cyfreithiol yn cael ei wneud yn ofalus ac ar amserlen dynn iawn. Ymhelaethwyd bod gwaith cloriannu yn cael ei gymryd o ddifri er mwyn sicrhau bod amddiffyniad cryf yn cael ei ddatblygu. Nodwyd hefyd bod bargyfreithwyr ar gyfer amddiffyn her gyfreithiol yn cael eu dewis yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn meddu â'r sgiliau a phrofiad penodol, megis Cwnsler y Brenin (KC), a bod asesiad manwl yn cael ei roi i unrhyw gyngor a dderbynnir.

Ymholwyd os yw'r Cyngor wedi addasu ei drefniadau mewn unrhyw fodd yn dilyn yr her gyfreithiol hon. Mewn ymateb, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol bod gwersi wedi cael eu dysgu yn dilyn y broses hon. Cyfeiriwyd at yr angen i sicrhau bod holl adroddiadau a gyflwynir yn gyflawn yn un o'r gwersi hynny, drwy sicrhau nad oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gyflwynir. Pwysleisiwyd bod y wers hon wedi ei dysgu ar draws y Cyngor ac nid ar gyfer y maes hwn yn unig.

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol nad oedd tystion wedi cael eu galw yn ystod yr her gyfreithiol oherwydd natur yr achos.

Nodwyd oherwydd bod y dosbarthiadau defnydd a gyflwynwyd gan Llywodraeth Cymru yn newydd, nid oedd cynsail ar gyfer cyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer y defnydd a bwriadwyd gan Gyngor Gwynedd. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol bod y tri dosbarth defnydd newydd a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2022 yn parhau i fod yn weithredol ac mae modd i berchnogion newid dosbarth defnydd eu heiddo heb yr angen am gais cynllunio. Nodwyd nad oes diffiniad cyfreithiol o newid defnydd materol a bod hyn yn fater o ffaith a graddfa a bod angen i hyn gael ei ystyried yn unigol fesul achos, gan roi ystyriaeth i faterion fel amllder a graddfa defnydd. Fodd bynnag, cydnabuwyd nad oes modd atal newid dosbarth defnydd ar hyn o bryd gan nad yw cyfarwyddyd Erthygl 4 yn weithredol.

Mewn ymateb i gwestiwn yng nghyswllt Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor, eglurodd y Pennaeth Cynorthwyol yr Adran bod cyflwyno'r dosbarthiadau oedd yn caniatáu i awdurdodau lleol i gyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4, y debygol o fod yn arf a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn caniatáu ymateb cyflym. Tynnwyd sylw y byddai cyflwyno deddfwriaeth brimaidd newydd i gyflwyno'r cysyniad o'r angen am gais cynllunio er mwyn newid dosbarth defnydd eiddo yn broses araf gyda'r risg na fyddai'n llwyddo i dderbyn digon o gefnogaeth ar lefel genedlaethol gan fod y nifer o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr a'u heffaith yn amrywio'n helaeth ar draws Cymru.. Cyfeiriwyd at Gynllun Datblygu Lleol newydd y Cyngor gan nodi bod y broses hon yn mynd i roi ystyriaeth i gyflwyno polisiâu cynllunio sydd yn ymwneud ac ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr yn unol â gofynion Polisi Cynllunio Cymru. Amlygwyd nad oes modd atal colli eiddo sydd yn prif fan preswyl i'w trosi yn llety gwyliau tymor byr neu ail dai oherwydd nad oes rheolaeth arno. Fodd bynnag, mae modd gosod amod ar dai sydd yn rhan o ddatblygiadau newydd i fod yn prif fan preswyl yn unig.

Gofynnwyd pa fewnbwn a gafwyd gan drigolion Gwynedd wrth i'r Cyngor ystyried cyflwyno'r cyfarwyddyd. Mewn ymateb i'r ymholiad, manylodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Amgylchedd bod ymgysylltu cyhoeddus eang wedi cael ei wneud fel rhan o'r broses. Nodwyd bod hyn yn cynnwys ymgysylltu gyda phob tŷ o fewn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd, ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn y wasg a gosod rhybuddion safle. Eglurwyd bod swyddogion wedi rhoi ystyriaeth i bob ymateb a ddaeth i law. Esboniwyd nad oedd yr ymatebion yn cael eu grwpio i'r sylwadau hynny oedd o

blaid neu yn erbyn cyflwyno'r cyfarwyddyd. Fodd bynnag, eglurwyd bod swyddogion wedi rhoi ystyriaeth fanwl i bob safbwynt a data a gyflwynwyd.

Ategodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol bod yr her gyfreithiol hon wedi gwrthwynebu cyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 yng Ngwynedd ar 4 sail. Tynnwyd sylw bod tair sail gymhleth yr her wedi cael eu diddymu fel seiliau apêl gan y llysoedd, gyda dim ond un sail yn llwyddo. Amlygodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran nad oedd y ffaith y bwriedir i'r cyfarwyddyd fod yn effeithio ar ardal cynllunio Gwynedd yn ei gyfanrwydd, wedi cael ei herio. Cadarnhawyd os byddai'r Cyngor yn penderfynu ymdrechu i ail-gyflwyno'r cyfarwyddyd, y byddai'n gwneud hynny gyda'r ardal gyfan yn debygol o fod mewn golwg unwaith eto. Cadarnhawyd byddai modd edrych ar gymunedau penodol o fewn y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, ystyriodd yr Aelodau y byddai'n synhwyrol i dderbyn cyngor cyfreithiol allanol ychwanegol ar ddiffiniadau terminoleg angenrheidiol y maes er mwyn sicrhau na fyddai modd cyflwyno unrhyw heriau cyfreithiol yn y dyfodol.

Derbyniwyd sylwadau gan Aelodau y dylid marchnata unrhyw ymgais yn y dyfodol i ail-gyflwyno'r cyfarwyddyd yng Ngwynedd mewn modd gwahanol er mwyn ennyn mwy o gefnogaeth. Manylwyd bod y gwaith hyd yma wedi arwain at nifer o lwyddiannau ac byddai gwneud trigolion yn hysbys o hynny yn effeithiol iawn ar gyfer unrhyw ymgais i'r dyfodol. Mynegwyd cefnogaeth i ail-gyflwyno'r cyfarwyddyd yn y dyfodol gan ei fod yn arf effeithiol i'r adran ac yn amddiffyn cymunedau Gwynedd. Holiwyd os yw'r Adran yn bwriadu mynd ati i ail-gyflwyno'r cyfarwyddyd a beth oedd y camau nesaf.

Mewn ymateb, eglurodd yr Aelod Cabinet bod dyhead i ail-gyflwyno'r cyfarwyddyd unwaith eto yn y dyfodol. Fodd bynnag, nodwyd nad oes cynlluniau pendant i wneud hynny ar hyn o bryd gan fod tymor y Cyngor hwn yn dirwyn i ben. Ymhelaethodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran bod y gwaith sydd wedi cael ei wneud fel rhan o'r broses hyd yma yn gallu cael ei aildefnyddio wrth ail-gychwyn y broses. Ystyriwyd bod cyllideb ddigonol i gwblhau'r broses pe byddai'n cael ei ail-gyflwyno. Adroddwyd bod arian grant o £402,330 gan Lywodraeth Cymru i baratoi a gweithredu cyfarwyddyd Erthygl 4 yn lwyddiannus, gyda Chyngor Gwynedd yn cyfrannu swm cyfatebol o £400,000. Cadarnhawyd bod £465,654.53 wedi ei wario hyd yma (ar faterion staffio, gweinyddu a chyfreithiol) gan gadarnhau bod £336,675.37 yn weddill yn y gronfa os bwriedir ail-gyflwyno'r cyfarwyddyd.

Derbyniwyd diolchiadau gan y Cynghorydd Edgar Wyn Owen, Cyn-gadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, am y cymorth ac arweiniad yr oedd yr Awdurdod wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd, drwy gydol y broses o gyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer yr awdurdod. Mewn ymateb i ymholiad am lwyddiant Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i gyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4, eglurodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran nad oedd unrhyw wahaniaeth yn eu proses hwy o'i gymharu â threfniadau Gwynedd. Amlygwyd, gan fod amserlen y Parc tu ôl i un y Cyngor, eu bod wedi gallu manteisio ar y wybodaeth a ddaeth i law yn ystod yr her gyfreithiol yn erbyn y broses yng Ngwynedd, gan sicrhau bod eu hadroddiadau yn cael eu haddasu i sicrhau bod cyfeiriad penodol at newid defnydd materol.. Ychwanegwyd nad oedd her gyfreithiol wedi cael ei gyflwyno yn erbyn Awdurdod y Parc o fewn y terfyn amser penodol.

Mewn ymateb i ymholiad, cydnabuodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran nad oedd y cyfarwyddyd yn weithredol yng Ngwynedd am ddigon o amser er mwyn gallu mesur ei effaith. Amlygwyd bod peth data ar gael ac fe fyddai'n cael ei asesu ond roedd yn anodd gwybod ar hyn o bryd os oedd unrhyw effaith yn sgil y cyfarwyddyd yntau mesurau arall sydd ar waith i fynd i'r afael ac ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr .

Ar ddiwedd y drafodaeth, cadarnhaodd y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, (cyn-aelod Cabinet a oedd yn rhan o benderfyniad y Cabinet i gymeradwyo cyfarwyddyd Erthygl 4 yn ei gyfarfod ym Mehefin 2023), ei fod yn ymwybodol o 'newid defnydd materol' ac yn ymwybodol o'r wybodaeth berthnasol cyn dod i benderfyniad.

Diolchwyd am yr adroddiad

Penderfynwyd:

- 1. Derbynn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
- 2. Argymhell i'r Aelod Cabinet Amgylchedd bod angen rhoi ystyriaeth fanwl o ran 'newid defnydd materol' a'r angen i dderbyn cyngor cyfreithiol allanol wrth ystyried y camau nesaf.**

8. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET AMGYLCHEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Amgylchedd, Pennaeth Adran Amgylchedd a Phenathiaid Cynorthwyol yr Adran.

Atgoffwyd bod yr Adran yn arwain ar nifer o brosiectau Cynllun y Cyngor 2023-28 sef;

- Gwynedd Glyd
 - Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr
- Gwynedd Werdd
 - Cynllun Datblygu Lleol newydd
 - Gwastraff ac Ailgylchu
 - Teithio Llesol
 - Trafnidiaeth Gyhoeddus

Cyfeiriwyd at nifer o brosiectau'r Adran yn ogystal â mesuryddion perfformiad, gan groesawu sylwadau a chwestiynau gan yr Aelodau.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan yr Aelodau:-

Gwasanaeth Cynllunio

Cydnabuwyd bod straen wedi bod ar swyddogion y gwasanaeth cynllunio yn ddiweddar, gan ddiolch iddynt am eu gwaith ac ymfalchïo fod y gwasanaeth yn manteisio ar gyfleon Cynllun Yfory y Cyngor. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd yr Adran, eu bod wedi cymryd mantais o Gynllun Yfory'r Cyngor er mwyn penodi aelodau staff a'u hyfforddi i fod yn gymwys. Nodwyd bod posibilrwydd bydd Hyfforddai Polisi Cynllunio yn cael ei gynnal yn fuan. Cadarnhawyd bod y gwasanaeth yn cynllunio gweithlu yn effeithiol ac er yn cydnabod trosiant staff, mae swyddogion newydd yn cael eu penodi er mwyn cyflawni'r gwaith.

Pryderwyd bod y Cyngor mewn risg o golli arbenigedd ymysg swyddogion cynllunio. Mewn ymateb i'r sylwadau, cydnabuwyd bod peth arbenigedd yn cael ei golli wrth i swyddogion adael eu rolau, ond sicrhawyd bod defnydd o Gynllun Yfory a chynllunio gweithlu effeithiol yn sicrhaf nad oes risg sylweddol o golli arbenigedd.

Gorfodaeth Cynllunio

Mewn ymateb i ymholiad ar gyfraddau Gorfodaeth Cynllunio, eglurodd y Pennaeth Cynorthwyol bod swyddogion yn ymateb i gwynion ar faterion gorfodaeth pan yn briodol. Eglurwyd bod sefyllfaoedd yn codi ble mae unigolion yn anhapus gyda barn swyddogion ac mae trefniadau statudol yn cael eu cymryd er mwyn sicrhau eu bod yn gallu apelio

os dymunir. Tynnwyd sylw ei fod yn heriol i leihau nifer o alwadau gorfodaeth sydd yn cael eu derbyn oherwydd materion staffio, ond hyderwyd bod modd ymdrin â'r mater hwn wrth i niferoedd o aelodau staff cymwys gynyddu.

Cynllun Datblygu Lleol Newydd

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran bod yr amserlen i gyflwyno Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar amser, ond mai'r flaenoriaeth ar hyn o bryd yw cefnogi staff.

Teithio Llesol

Mewn ymateb i gais am ddata o ddefnydd a chynlluniau teithio llesol mewn ardaloedd gwledig o'r Sir, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran bod modd rhannu'r wybodaeth honno y tu hwnt i'r cyfarfod hwn.

Gwastraff ac Ailgylchu

Ystyriwyd os oes cynlluniau ar waith er mwyn casglu plastigion meddal er mwyn cynyddu canran o wastraff a ailgylchir yng Ngwynedd. Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran bod trefniadau ar waith er mwyn casglu plastigion meddal fel rhan o gylchdeithiau, o fis Ebrill 2027 ymlaen. Ymhelaethwyd bod y Cyngor yn cydweithio gyda Chyngor Bro Morgannwg ar hyn o bryd, er mwyn chwilio am arfer dda, gan eu bod eisoes wedi rhoi'r gwasanaeth hwn ar waith. Nodwyd bod ymgorffori casgliadau o'r math hwn yn gallu arwain at gost sylweddol oherwydd yr angen i gynnwys cynlluniau newydd yn ogystal â chostau prosesu'r gwastraff. Pwysleisiwyd bod angen sicrhau bod y gwaith o gasglu'r plastigion meddal yn effeithiol, gan fod tebygolrwydd y bydd archfarchnadoedd yn dirwyn y gwasanaeth i ben unwaith bydd y Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb ohono. Adroddwyd bod y prosesau sydd ar waith ym Mro Morgannwg yn effeithiol iawn, a bod yr Adran yn ei ffafrio. Fodd bynnag, pwysleisiwyd mai dim ond oddeutu 1% o holl wastraff Gwynedd yw plastigion meddal ac ni fyddai'n effeithio'n ormodol ar dargedau ailgylchu.

Gofynnwyd os yw swyddogion yn credu bod ailgylchu 70% o wastraff y Sir yn darged cyraeddadwy. Mewn ymateb i'r ymholiad ar gyfraddau ailgylchu, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet nad oedd pwysau yn cael ei roi i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o fod yn ailgylchu 70% o wastraff y Sir. Ymhelaethwyd bod technoleg newydd yn cael ei ddatblygu'n gyson a fyddai'n cynorthwyo'r Adran i gyrraedd y targedau hyn i'r dyfodol megis teclyn ailgylchu sydd yn dyrannu arian i ddefnyddwyr am ei ddefnyddio. Sicrhawyd ei fod o'r farn y dylid ailgylchu 100% o holl wastraff y Sir ac y bwriedir cynyddu faint o wastraff sydd yn cael ei ailgylchu i geisio cyrraedd y targed hwnnw cyn belled a sy'n bosib.

Mewn ymateb i ymholiad pellach am farn y swyddogion os oedd targed Llywodraeth Cymru o ailgylchu 70% o holl wastraff y Sir yn realistig o ystyried nad oes cynnydd mawr yng nghyfraddau ailgylchu'r Sir i gyfarch y targed, eglurodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran bod holl Awdurdodau Lleol Cymru yn mesur eu llwyddiant yn erbyn y targed hwn yn wahanol. Nodwyd hefyd bod cyfraddau Gwynedd yn erbyn y targed hwn yn amrywio yn flynyddol megis drwy gyfraddau gwastraff gardd, sydd yn cael ei gynnwys o fewn y ffigyrau ar y cyd gyda gwastraff anheddau, busnesau, biniau stryd a chanolfannau ailgylchu. Amlygwyd bod Strategaeth Gwastraff yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd er mwyn cynllunio sut mae'r Adran yn mynd i'r afael â hyn, gan gadarnhau ei fod yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Gorffennaf.

Cytunwyd gyda sylwadau Aelodau y dylid rhoi pwysau ar gwmnïau, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod modd ailgylchu pob math o becynnau nwyddau.

Mewn ymateb i gais am wybodaeth ychwanegol am ddata yn ymwneud â salwch staff y Gwasanaeth Ailgylchu, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran y byddai'n ei rannu y tu hwnt i'r cyfarfod. Fodd bynnag, eglurwyd bod yr Adran yn gweithio i leihau cyfraddau salwch y gweithlu ac wedi cymryd camau megis lleihau niferoedd depo ailgylchu o fewn y Sir, fel bod modd cynllunio gweithlu yn fwy effeithiol os oes salwch yn codi. Eglurwyd bod y penderfyniad hwn wedi cael ei wneud gan fod cyfraddau salwch staff yn amrywio o ardal i ardal yn y Sir ac mae lleihau'r niferoedd depo yn caniatáu cynllunio gweithlu yn rhwyddach.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.

9. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a YGC, ynghyd â Phennaeth a Phennaeth Cynorthwyol yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC.

Atgoffwyd bod yr Adran yn weladwy iawn o fewn y Sir gan ei fod yn cyflawni gwasanaethau rheng flaen. Ymfalchiwyd bod Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) yn gweithredu'n effeithiol iawn ac yn dod ag incwm i'r Cyngor tra hefyd yn cynorthwyo adrannau eraill i ddatblygu cynlluniau.

Adroddwyd bod yr Adran yn arwain ar nifer o brosiectau Cynllun y Cyngor 2023-28 sef;

- Gwynedd Yfory
 - Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y Sir
- Gwynedd Werdd
 - Gweithredu ar risgiau llifogydd
 - Cymunedau Glân a Thaclus

Tynnwyd sylw at dargedau arbedion ariannol yr Adran gan nodi bod nifer o'r targedau wedi eu cyfarch ond bod mwy o waith i'w wneud. Hyderwyd y bydd y targedau hynny yn cael eu cyfarch o fewn y flwyddyn ariannol bresennol.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan yr Aelodau:-

Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd – Cyflwr Ffyrdd

Mynegwyd tristwch am ddigwyddiad angheuol a fu'n ardal Bermo yn ddiweddar. Mewn ymateb i'r sylwadau, cydnabuwyd bod gwersi angen eu dysgu o'r digwyddiad hwnnw, ble nad oedd modd i wasanaethau brys gyrraedd yr ardal mewn pryd, gyda materion traffig a chynnal priffyrdd wedi ychwanegu at yr her. Cadarnhawyd bod adolygiad i mewn i'r digwyddiad a threfniadau eisoes wedi cael eu cynnal a bod cyfarfod arall yn cael ei gynnal yn fuan, ble fydd modd i Aelodau etholedig lleol mewnbynnu i'r drafodaeth.

Mewn ymateb i ymholiad, cydnabuwyd bod niferoedd ffyrdd dosbarth A, B ac C sydd yn adrodd yn goch (cyffredinol wael ac yn debygol o angen gwaith cynnal arfaethedig yn fuan) ar gynnydd. Fodd bynnag, pwysleisiodd Pennaeth yr Adran nad oedd yn sefyllfa bryderus ar hyn o bryd, gan gadarnhau bod cyfraddau safon ffyrdd yng Ngwynedd ymysg yr uchaf yng Nghymru. Amlygwyd yr ystyrir bod cadw cyflwr ffyrdd sydd yn adrodd yn goch o dan 8% yn dderbyniol, gan adrodd bod 4.2% o ffyrdd dosbarth A, 5.2% o ffyrdd dosbarth B ac 13.2% o ffyrdd dosbarth C yn adrodd mewn cyflwr drwg ar hyn o bryd. Cydnabuwyd bod gwaith i'w wneud er mwyn lleihau'r cyfraddau hyn ar gyfer ffyrdd

dosbarth C, gan egluro eu bod yn ffyrdd gwledig fel rheol, gan amlygu bod canran uchel o'r ffyrdd yng Ngwynedd yn disgyn i mewn i'r dosbarth hwn.

Eglurwyd y defnyddir sganwyr pwrpasol i adolygu'r ffyrdd pob blwyddyn, neu bob dwy flynedd os yw'r ffyrdd yn safonol. Adroddwyd bod yr Adran wedi derbyn buddsoddiad o £2.8miliwn gan LGBI (Local Government Borrowing Initiative) i ddatblygu'r trefniant hwn ac mae'n arf grêt i'r Adran wrth geisio rhaglenni gwaith yn effeithiol gan fod modd blaenoriaethu'r ffyrdd sydd angen y gwaith fwyaf.

Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith gan nodi nifer o sylwadau o gyflwr ffyrdd boddhaol yng Ngwynedd.

Gwasanaeth Fflyd

Cyfeiriodd aelodau at darged afrealistig Llywodraeth Cymru o sicrhau bod 100% o gerbydau'r fflyd yn gerbydau gwyrdd erbyn 2030. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran bod cynnydd da wedi'i wneud o fewn y gwasanaeth fflyd, gyda chanran uchel o geir a faniau bychan bellach yn gerbydau gwyrdd. Fodd bynnag, adroddwyd nad oes modd i gyfnewid cerbydau trwm a pheirianyddol i rai gwyrdd ar hyn o bryd oherwydd nad yw'r dechnoleg wedi ei ddatblygu'n ddigonol. Eglurwyd byddai'n aneffeithiol i'w newid ar hyn o bryd oherwydd heriau gwefru ac effeithlonrwydd. Adroddwyd bod nifer o gerbydau'r fflyd bellach yn rhai trydan neu hybrid ac mae ystyriaeth yn cael ei roi i gerbydau hydrogen ar gyfer cerbydau trwm a pheirianyddol. Er hyn, cydnabuwyd ei fod yn annhebygol bydd y targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gyfarch yn amserol.

Derbyniwyd pryderon na fyddai'r grid cenedlaethol yn gallu ymdopi gyda'r galw am drydan yn sgil y cynnydd mewn defnydd o gerbydau trydan yn genedlaethol. Mewn ymateb i ymholiad pellach, cadarnhawyd bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn sicrhau bod cyflenwad pwyntiau gwefru digonol yn cael eu cyflwyno ar draws y Sir, ac mae'r Adran yn cysylltu gyda chwmnïau cyflenwad trydan yn aml i sicrhau eu bod yn cael eu hychwanegu i'r grid.

Tîm Tacluso Ardal Ni

Derbyniwyd nifer o sylwadau cadarnhaol am y tîm a'r gwaith effeithiol maent yn ei gyflawni o fewn yr Adran.

Torri Gwair ac Ymylon Ffyrrdd

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd Pennaeth yr Adran bod y gwaith o dorri gwair ac ymylon ffyrdd yn cael ei wneud yn fewnol mewn unrhyw ardal o fewn ffiniau 30mya. Ymhelaethwyd bod contractwr allanol yn cael ei benodi drwy dendr ar gyfer unrhyw ardal arall o fewn y Sir. Nodwyd bod trefniadau mewn lle er mwyn sicrhau bod y gwair yn cael ei gasglu yn fuan wedi iddo gael ei dorri, gan gydnabod bod yr Adran yn derbyn sylwadau nad yw hyn yn gweithio'n effeithiol ar bob achlysur. Pwysleisiwyd bod yr Adran yn cynnal cyfarfodydd gyda'r contractwr yn wythnosol a gall unrhyw bryderon sydd yn cael eu codi, eu cyfarch yn y cyfarfodydd hynny.

Derbyniwyd sylwadau bod sbwriel i'w weld ar ymylon ffyrdd pan mae'r gwair yn cael ei dorri, gan ystyried os oes datrysiad ar gyfer ei gasglu'n amserol. Mewn ymateb i'r ymholiad, nododd Pennaeth yr Adran bod angen newid ymddygiad pobl er mwyn sicrhau nad ydynt yn taflu gwastraff o'u cerbydau. Eglurwyd nad oes modd casglu'r sbwriel cyn torri'r gwair ond mae trefniadau mewn lle i sicrhau bod y Gwasanaeth Edrychiad Stryd yn ei gasglu yn fuan wedyn.

Meysydd Chwarae

Ymholwyd am wybodaeth ar y broses o adnewyddu meysydd chwarae a sut mae'r Adran yn asesu'r galw yn ogystal â pha offer sydd eu angen o fewn y lleoliadau. Mewn ymateb, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran bod grant wedi cael ei dderbyn er mwyn adnewyddu 29 o feysydd chwarae ar draws y Sir, gan nodi y gobeithir bydd mwy o arian grant yn cael ei ddyrannu yn y dyfodol. Eglurwyd nad oes trefniadau pendant er mwyn penderfynu ble mae'r arian hynny yn cael ei ddefnyddio ond nodwyd bod swyddog yn cynnal archwiliadau misol ar y 120 o feysydd parcio sydd yng Ngwynedd. Ychwanegwyd bod yr adolygiadau hyn yn arwain at raglen waith o beth sydd angen ei addasu neu ei ddiweddarau yn y dyfodol. Ategodd yr Aelod Cabinet bod modd i Gynghorau Cymuned brynu offer i'r meysydd chwarae mewn cydweithrediad gyda'r Adran os ydynt yn dymuno.

Cynlluniau Arbedion

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd Pennaeth yr Adran bod gwaith yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod unrhyw orwariant yn cael ei leddfu'n effeithiol tra bod gwasanaethau yn parhau. Cadarnhawyd bod hyn yn flaenoriaeth i'r Cyngor gan nodi bod adolygiadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn ystyried eu heffeithlonrwydd. Eglurwyd bydd hyn yn caniatáu i wasanaethau gael eu hail-gyflwyno mewn modd mwy effeithiol i'r dyfodol megis Edrychiad a Glanhau Stryd a Chynnal Tiroedd, yn hytrach na chyflwyno toriadau.

Cyfraddau Salwch

Gofynnwyd am ddata ychwanegol am y rhesymau pam bod cyfraddau salwch yn cynyddu ac am unrhyw resymau penodol pam bod aelodau staff i ffwrdd o'r gwaith. Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran eu bod yn gymharol i'r hyn a welir yn adrannau eraill y Cyngor. Cadarnhaodd bod trefniadau cefnogi mewn lle ar gyfer pob aelod o staff sydd yn anhwylus, yn enwedig yr aelodau staff hynny sydd i ffwrdd o'r gwaith yn hirdymor. Pwysleisiwyd nad yw cyfraddau salwch yr Adran yn arwain at newid gweledol i wasanaethau ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30yb a gorffennodd am 1:35yp

CADEIRYDD

Eitem 5

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Cymunedau
DYDDIAD	1 Hydref 2026
TEITL	Adroddiad Blynyddol Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2025/26
RHESWM DROS GRAFFU	Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd
AWDUR	Dylan Owen, Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol
AELOD CABINET	Y Cyng. Craig ab Iago, Aelod Cabinet Amgylchedd

1. Pam fod angen ei graffu?

- 1.1 Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23-2029/30 yn un o'r prosiectau o fewn pennawd Gwynedd Werdd yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028.
- 1.2 Mae llawer o'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio yn yr adroddiad blynyddol hwn eisoes wedi ei graffu gan y Bwrdd Hinsawdd a Natur a thrwy drefniadau herio perfformiad mewnol y Cyngor, ond mae'r adroddiad blynyddol yn dod â'r holl wybodaeth at ei gilydd am y tro cyntaf.
- 1.3 Bydd craffu'r adroddiad blynyddol hwn yn fodd i aelodau'r Pwyllgor dderbyn sicrwydd bod trefniadau mewn lle a bod cynnydd digonol o ran gwireddu Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23 - 2029/30.
- 1.4 Mae gan y Pwyllgor gyfle i wirio os yw'r Adroddiad yn gywir a chytbwys a'i peidio. Gall hefyd gynnig unrhyw welliannau neu gywiriadau, a hyn oll cyn i'r Adroddiad fynd i gyfarfod o Gabinet y Cyngor i gael ei fabwysiadu.
- 1.5 Gall y Pwyllgor hwn hefyd gynnig unrhyw syniadau am gamau gweithredu pellach i'r dyfodol yn seiliedig ar yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol.
- 1.6 Yn ôl Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae gan awdurdodau cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru ddyletswydd i gynnal ac i wella bioamrywiaeth ac i annog cryfder ecosystemau. Rydym yn adrodd ar y cynnydd yn erbyn 'dyletswydd Adran 6' o fewn Adroddiad Blynyddol Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2025/26.

2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

- 2.1 Y cynnydd a wnaed i wireddu'r Cynllun.
- 2.2 Beth yw'r cynnydd o ran uchelgais y Cynllun - 'Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol'?
- 2.3 Beth yw'r camau nesaf?

3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

- 3.1 Mae Adroddiad Blynyddol Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2025/26 yn Atodiad 1 yn ceisio cynnig darlun cywir a chytbwys o'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn er mwyn gwireddu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (CAHN).
- 3.2 Mae'r Adroddiad yn datgan y lefelau o allyriadau ac amsugno carbon yr oedd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol amdanynt, ac mae hynny wedi ei gyfrifo ar sail data sydd wedi ei gyflwyno i Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru. Ar sail y data hwn rydym yn gwybod faint yw'r 'bwlch i sero net' ac felly faint yn rhagor o waith sydd o'n blaenau os ydym am gyrraedd ein targed.
- 3.3 Mae'r Adroddiad Blynyddol hefyd yn cynnig tystiolaeth am sut mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn gweithredu Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r wybodaeth berthnasol ym mhennod 3 ac yna ar ddiwedd pob un o benodau 6 i 12.

4. Cefndir / Cyd-destun

- 4.1 Mabwysiadodd y Cyngor y [Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur-GWREIDDIOL.pdf](#) yn dilyn cyfarfod o'r Cabinet ar 8 Mawrth 2022. Mae "Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd" hefyd yn un o 8 o Flaenoriaethau Gwella y Cyngor o fewn [Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 \(llyw.cymru\)](#).
- 4.2 Yn ystod 2025/26 bu'r Cyngor yn adolygu'r CAHN er mwyn sicrhau ei fod yn gywir a chyfredol, ac fe gynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus arno. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad i'w gweld [yma](#).
- 4.3 Yn dilyn ymgynghoriadau cyhoeddus a mewnlod gydag aelodau etholedig a staff, fe addaswyd y CAHN ac fe gafodd fersiwn newydd ei fabwysiadu gan y Cabinet ar 7 Gorffennaf 2026. Mae'r cynllun newydd (Fersiwn 2) i'w weld [yma](#).
- 4.4 Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn pwyso a mesur y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun gwreiddiol a ddaeth i rym fis Ebrill 2022 yn hytrach na 'Fersiwn 2' sy'n weithredol ers haf 2026.
- 4.5 Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (y Cynllun/CAHN) yn amlinellu sut y byddwn fel Cyngor yn addasu ein ffordd o weithio ac o ddarparu gwasanaethau er mwyn lleihau ein allyriadau carbon a chynyddu capasiti amsugno carbon. Mae'n cynnig enghreifftiau o brosiectau y byddwn yn eu dilyn, eu costau amlinellol a'r amserlen er mwyn cyflawni.
- 4.6 Rydym wedi cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar y CAHN ers 2022/23, ac mae'r adroddiadau blynyddol blaenorol i'w gweld [yma](#).

- 4.7 Hon yw'r bedwaredd flwyddyn hefyd i ni, fel y rhan fwyaf o sefydliadau cyhoeddus eraill yng Nghymru, gyflwyno data am ein lefelau allyriadau ac amsugno carbon i Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru. Gosodir canllawiau clir ar ba ddata sydd angen ei gasglu, ac mae hynny'n sicrhau cywirdeb a chysondeb rhwng sefydliadau.
- 4.8 Rydym yn mesur ein allyriadau carbon ar draws y categorïau canlynol: adeiladau ac ynni; goleuadau stryd; fflyd ac offer; teithio busnes; cymudo staff; gweithio o gartref; gwastraff; caffael nwyddau a gwasanaethau. Rydym hefyd yn mesur lefelau amsugno carbon yn y tiroedd sy'n berchen i'r Cyngor.
- 4.9 Mae data carbon Cyngor Gwynedd ar gyfer 2025/26 wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 14 Medi, ac mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol yn seiliedig ar yr hyn a gyflwynwyd. Mae hi'n rhy gynnar i ni dderbyn sylwadau yn ôl gan y Llywodraeth, ond roedd yr wybodaeth yn gywir hyd eithaf ein gallu.

Prif Faterion

- 4.10 Mae pennod 5 yr Adroddiad Blynyddol yn rhoi gwybodaeth am y lefelau o allyriadau ac amsugno carbon yr oedd y Cyngor yn gyfrifol amdanynt, ac am y ffigwr hollbwysig, sef y bwlch sy'n weddill er mwyn cyrraedd sero net.
- 4.11 Mae'r allyriadau carbon o'n prosesau caffael yn seiliedig ar wariant yn unig ar hyn bryd, a gall hyn greu darlun camarweiniol o wir effaith ein gwariant ar yr hinsawdd. Yn syml, po fwyaf yr ydym yn ei wario po fwyaf yw'r allyriadau. O'r herwydd rydym yn cyflwyno dau set o ddata ym mhob pennod, sef 'gan gynnwys caffael' a 'heb gynnwys caffael'.
- 4.12 Roedd cyfanswm allyriadau carbon Cyngor Gwynedd yn 2025/26, **gan** gynnwys caffael, wedi gostwng 8% ers blwyddyn waelodlin 2019/20 a gostwng 11% ers 2024/25.
- 4.13 Roedd cyfanswm allyriadau carbon Cyngor Gwynedd yn 2025/26, **heb** gynnwys caffael, wedi lleihau 39% ers blwyddyn waelodlin 2019/20 a gostwng 6% ers 2024/25.
- 4.14 Wrth edrych ar ein data allyrru ac amsugno carbon gyda'i gilydd, **heb** ystyried data caffael, yna mae ein **bwlch i sero net** 37% yn llai yn 2024/25 o'i gymharu â 2019/20 a 7% yn llai nag yn 2024/25.
- 4.15 Fe wnaeth canran yr allyriadau carbon leihau ym mhob categori heblaw cymudo, ac rydym o'r farn bod y cynnydd yn y categori hwnnw oherwydd ein bod wedi cynnal arolwg staff er mwyn casglu data fwy cywir na'r hyn a gawsom mewn blynyddoedd blaenorol.

5 Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

- 5.1 Yn ôl Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae gan awdurdodau cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru ddyletswydd i gynnal ac i wella bioamrywiaeth ac i annog cryfder ecosystemau.
- 5.2 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth bioamrywiaeth genedlaethol, sef y 'Cynllun Gweithredu Adfer Natur' yn 2015 oedd yn amlinellu'r ymrwymiad i wrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru, ac ynddo y mae 6 amcan ar gyfer gweithredu. Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd Adran 6 mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi cynllun eu hunain sy'n seiliedig ar gynllun Llywodraeth Cymru, ac yna mae angen adrodd ar y cynnydd.
- 5.3 Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn diweddarau ein Cynllun Adfer Natur ein hunain yn ystod 2025/26 er mwyn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf, ond yn y cyfamser rydym yn adrodd ar ein cynnydd yn erbyn 6 amcan y Cynllun Gweithredu Adfer Natur cenedlaethol drwy'r Adroddiad Blynyddol Hinsawdd a Natur. Mae'r wybodaeth i'w weld ym mhennod 3 ac ar ddiwedd penodau 5 i 11.

7. Ymgynghori

- 7.1 Ar ôl derbyn sylwadau gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau bydd yr adroddiad yn cael ei ystyried gan Cabinet y Cyngor cyn i fersiwn derfynol gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

8. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 8.1 A ydych wedi **cynnwys** trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?
- 8.2 Bydd yr Adroddiad Blynyddol terfynol yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ar ôl derbyn sêl bendith y Cabinet a byddwn yn rhannu gwybodaeth amdano i holl aelodau'r Cyngor, ac i drigolion Gwynedd a'r cyhoedd yn gyffredinol.
- 8.3 A ydych wedi ystyried **cydweithio**?
- 8.4 Mae penodau 11 a 12 o'r Adroddiad Blynyddol yn adrodd ar waith sydd wedi ei gynnal yn rhannol gan Bartneriaeth Natur Gwynedd, sef consortiwm o fudiadau lleol sy'n cael eu harwain gan y Cyngor. Mae nifer o brosiectau eraill sydd yn y CAHN yn cael eu cynnal mewn partneriaeth ag eraill, megis prosiectau teithio llesol ar y cyd â phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- 8.5 Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i **atal** problemau rhag codi neu waethgu yn y dyfodol?
- 8.6 Un o egwyddorion sylfaenol y CAHN yw ceisio atal cynnydd pellach yn nhymeredd cyfartalog y blaned ac i gyfyngu cynhesu byd eang i "ymhell islaw 2

°C” yn unol â Chytundeb Paris y Cenhedloedd Unedig. Mae pob un o brosiectau'r cynllun yn ceisio sefydlogi neu hyd yn oed wrthdroi y siawns bod y sefyllfa bresennol yn arwain at ragor o broblemau yn y dyfodol.

- 8.7 Sut ydych wedi ystyried yr **hirdymor** a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?
- 8.8 Fel y nodwyd uchod, sail y CAHN yw ceisio atal problemau cynhesu byd eang rhag gwaethygu i'r dyfodol, ac er bod targed i'r Cyngor ei hun fod yn garbon sero net erbyn 2030 mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i Gymru gyfan fod yn sero net erbyn 2050. Mae'r CAHN felly hefyd yn cymryd i ystyriaeth y bydd newid arferion trigolion a busnesau Gwynedd yn waith hirdymor y tu hwnt i 2030.
- 8.9 Mae'r Adroddiad Blynyddol yn amlygu bod y CAHN ei hun yn datgan bod yna waith pellach angen ei wneud er mwyn ymgorffori prosiectau fydd yn helpu trigolion, busnesau a chymunedau i ymateb i newid hinsawdd sydd eisoes yn newid ein tirwedd, megis effaith llifogydd a thywydd eithafol. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i adolygu'r CAHN ac i wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol felly mae'n debygol iawn y gwelwn brosiectau ychwanegol i'r dyfodol fydd yn canolbwyntio ar helpu trigolion Gwynedd i addasu i'r anghenion gwahanol dros gyfnod hir o amser.
- 8.10 Er mwyn sicrhau **integreiddio**, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?
- 8.11 Mae nifer fawr o brosiectau'r CAHN yn cael eu cynllunio neu eu gweithredu ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill neu gyda'r sector wirfoddol a chymunedau. Gweler 8.4.
- 8.12 Mae nifer o gyrff cyhoeddus lleol gan gynnwys Cyngor Gwynedd yn aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac un o dri Amcan Llesiant yng Nghynllun Llesiant Gwynedd a Môn 2023-2028 yw 'Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon'. Mae yna gydweithio parhaus gydag awdurdodau lleol eraill ar draws gogledd Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth i Gymru sydd wedi arwain at gynllunio a chomisiynu gwaith ar y cyd. Mae nifer o brosiectau'r CAHN hefyd yn ddibynnol ar gydweithio llwyddiannus gyda phartneriaid eraill, megis ein prosiectau bioamrywiaeth a defnydd tir ar y cyd â Phartneriaeth Natur Gwynedd.

9. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

- 9.1 Lluniwyd Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol ar y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur pan y gafodd

ei fabwysiadu yng nghyfarfod y Cabinet ar 8 Mawrth 2022. Mae'r asesiad hwn yn uniongyrchol berthnasol i'r Adroddiad Blynyddol ar y CAHN yn ogystal.

10. Camau Nesaf

- 10.1 Yn dilyn trafodaeth yn y Pwyllgor Craffu Cymunedau bydd unrhyw sylwadau sydd gan y Pwyllgor ar yr Adroddiad Blynyddol yn cael eu cyflwyno i sylw'r Cabinet.
- 10.2 Os fydd y Cabinet yn cymeradwyo'r adroddiad byddwn yn rhannu cyhoeddusrwydd amdano ac yn annog trigolion Gwynedd i fanteisio ar y cyfleoedd i leihau eu hallyriadau carbon personol yn ogystal ag helpu'r Cyngor i gyrraedd ein targed sero net ein hunain.

11. Gwybodaeth Cefndir

[Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf](#)

12. Atodiadau

Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2025/26

ADRODDIAD BLYNYDDOL HINSAWDD A NATUR CYNGOR GWYNEDD 2025/26

- 1. Rhagair Aelod Cabinet Amgylchedd**
- 2. Mesur er mwyn cyrraedd y nod**
- 3. Allyriadau ac Amsugno Carbon 2025/26**
- 4. Bwlch i Sero Net**
- 5. Adran 6 – Cynnal a Gwella Bioamrywiaeth**
- 6. Adeiladau ac Ynni**
- 7. Symud a Thrafnidiaeth**
- 8. Gwastraff**
- 9. Llywodraethu**
- 10. Caffael**
- 11. Defnydd Tir**
- 12. Bioamrywiaeth**

1. Rhagair Aelod Cabinet Amgylchedd

[i ddilyn ar ôl cyfarfod Bwrdd Hinsawdd a Natur]

2. Mesur er mwyn cyrraedd y nod

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cyflwyno cyfrifon allyriadau ac amsugno carbon Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill - 31 Mawrth 2025/26, ac hefyd yn rhoi diweddariad ar y gwaith a wnaethpwyd er mwyn gweithredu Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur y Cyngor.

Drwy gymryd golwg gwrthrychol ar y gwaith a wnaethpwyd yn 2025/26, a chanlyniadau hynny yn nhermau allyriadau ac amsugno carbon, byddwn mewn gwell sefyllfa i fesur y ffordd orau ymlaen i gyrraedd ein nod i fod yn gyngor sero net ac ecolegol gadarnhaol.

3. Allyriadau ac Amsugno Carbon 2025/26

Fel y rhan fwyaf o sefydliadau cyhoeddus eraill yng Nghymru, mae Cyngor Gwynedd yn cyfrifo allyriadau carbon gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, ac yna'n cyflwyno'r canlyniad i'r llywodraeth yn flynyddol.

Mae'r allyriadau carbon yn cael eu cymharu â blwyddyn waelodlin y Cyngor sef 2019/20 a blwyddyn adrodd flaenorol 2024/25, tra'n darparu esboniad am unrhyw wahaniaethau.

Drwy fesur y data allyriadau ac amsugno carbon yn flynyddol bydd gennym dystiolaeth i weld ble yr ydym ar y daith i fod yn gyngor sero net ac ecolegol gyfeillgar.

Allyriadau Carbon

Cyfanswm allyriadau carbon Cyngor Gwynedd yn 2025/26 **HEB** gynnwys allyriadau caffael oedd 20,061,200 kgCO₂e. Mae hyn yn ostyngiad o 39% ers blwyddyn waelodlin 2019/20, ac yn ostyngiad o 6% ers 2024/25.



Cyfanswm allyriadau carbon Cyngor Gwynedd yn 2025/26 **GAN** gynnwys allyriadau caffael oedd 67,364,600 kgCO₂e. Mae hyn yn ostyngiad o 8% ers blwyddyn waelodlin 2019/20, ac yn ostyngiad o 11% ers 2024/25.

Mae'r siart cyntaf isod yn dangos ein allyriadau carbon dros 8 pennawd, ac yn cynnwys allyriadau caffael (prynu nwyddau a gwasanaethau).

Mae'r fethodoleg o fesur allyriadau carbon sy'n deillio o'n prosesau caffael yn amherffaith gan ei fod yn seiliedig ar faint o arian yr ydym yn ei wario. Po fwyaf yr ydym yn ei wario po fwyaf yw'r allyriadau.

Oherwydd y gall y data caffael greu darlun amherffaith mae'r ail siart yn cyflwyno data ar gyfer y 7 pennawd sy'n weddill ar ôl diystyru caffael.

Mae rhagor o wybodaeth am pam fod allyriadau yn codi neu ostwng i'w gael yn y penodau dilynol.



Amsugno Carbon

Mae faint o garbon deuocsid sy'n cael ei amsugno a'i storio gan asedau tir y Cyngor yn helpu i wrthbwyso cyfran o allyriadau carbon y Cyngor, ac i gau ychydig ar y bwlch i sero net.


Fodd bynnag, mae amcangyfrif amsugno carbon yn gywir yn heriol oherwydd y byddai angen lefel ddwfn iawn o fanylder am safleoedd, a hyd yma does dim arweiniad clir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar sut orau i gasglu data cywir.

Yn y cyfamser, rydym yn defnyddio data sy'n cael ei gasglu drwy fapiau OS a system rheoli asedau'r Cyngor. Cawsom broblem gyda defnyddio'r dechnoleg yma yn 2025/26 ac felly

rydym wedi defnyddio data 2024/25 gan ein bod yn hyderdus nad oes llawer o newid mewn defnydd tir na phrynu a gwerthu tir rhwng un flwyddyn a'r llall.

Mae rhagor o wybodaeth am beth mae'r Cyngor wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn er mwyn gwella ansawdd tiroedd a'u gallu i amsugno carbon i'w weld yn y penodau Defnydd Tir a Bioamrywiaeth.

Mae tiroedd sy'n eiddo i Gyngor Gwynedd wedi amsugno 3,123,254 kgCO₂e o garbon yn ystod 2025/26.



4. Bwlch i Sero Net

Ein bwlch i sero net (**heb** gynnwys caffael) yn 2025/26 oedd 16,937,946 kgCO₂e. Mae hyn yn ostyngiad o 37% ers blwyddyn waelodlin 2019/20, ac yn ostyngiad o 7% ers 2024/25.

Ein bwlch i sero net (**gan** gynnwys caffael) yn 2025/26 oedd 64,241,346 kgCO₂e. Mae hyn yn ostyngiad o 5% ers blwyddyn waelodlin 2019/20, ac yn ostyngiad o 12% ers 2024/25.

Allyriadau
20,061,200
kgCO₂e




Amsugno
3,123,254
kgCO₂e

Bwlch i Sero Net
16,937,946 kgCO₂e

Yn syml iawn, y bwlch i sero net ydi faint o CO₂e sydd angen i ni ddileu er mwyn cyrraedd ein uchelgais i fod yn gyngor sero net ac ecolegol gadarnhaol. Mae'r bwlch yn cael ei gyfrifo drwy dynnu gwerth cyfanswm y carbon sy'n cael ei amsugo allan o gyfanswm y carbon sy'n cael ei allyrru.

Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur, a'r adroddiad blynyddol hwn, yn dangos fod Cyngor Gwynedd yn ceisio cau'r bwlch o'r ddwy ochr yr un pryd, ac yn cydnabod pwysigrwydd cyfartal lleihau allyriadau a chynyddu lefelau amsugno.



5. Adran 6 – Cynnal a Gwella Bioamrywiaeth

Nod Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur Cyngor Gwynedd yw i fod yn gyngor sero net **ac ecolegol gadarnhaol**. Un llwybr at gyrraedd y nod hwnnw yw sicrhau ein bod yn gweithredu 'Adran 6'.

Yn ôl Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae gan awdurdodau cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru ddyletswydd i "geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth" ac i "hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau"

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod rhaid i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, ystyried bioamrywiaeth a natur ym mhob agwedd ar eu gwaith, nid dim ond mewn prosiectau amgylcheddol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth bioamrywiaeth genedlaethol, sef y 'Cynllun Gweithredu Adfer Natur' yn 2015 oedd yn amlinellu'r ymrwymiad i wrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru, a'r amcanion ar gyfer gweithredu. Mae'n cynnwys 6 amcan ar gyfer adferiad natur yng Nghymru:

- **Amcan 1:** Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel
- **Amcan 2:** Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth
- **Amcan 3:** Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd
- **Amcan 4:** Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd
- **Amcan 5:** Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro
- **Amcan 6:** Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Er mwyn i Gyngor Gwynedd gwrdd a gofynion 'Adran 6' mae angen i ni brofi sut yr ydym wedi cyfrannu at bob un o'r 6 amcan uchod.

Ar ddiwedd pob adran o'r adroddiad blynyddol hwn fe welwch ddisgrifiad o sut y mae'r gwaith sydd wedi ei gyflawni yn cyfrannu at wireddu un neu fwy o'r 6 amcan uchod, sydd yn ei dro yn cydymffurfio ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Dyma grynodeb o'r cysylltiad rhwng prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ac Amcanion Adran 6:

	Amcan 1	Amcan 2	Amcan 3	Amcan 4	Amcan 5	Amcan 6
Adeiladau ac Ynni						
Symud a Thrafnidiaeth						
Gwastraff						
Llywodraethu						
Caffael						
Defnydd Tir						
Ecoleg						

6. Adeiladau ac Ynni

Mae'r allyriadau carbon o **adeiladau ac ynni** yn 2025/26 yn 45% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael), sy'n 23% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 10% o ostyngiad ers 2024/25.

Mae'r allyriadau carbon o **oleuadau stryd** yn 2025/26 yn 3% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael), sy'n 44% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 13% o ostyngiad ers 2024/25.

Adnewyddu adeiladau er mwyn arbed ynni

Mae 3 safle wedi derbyn gwelliannau i ffabrig adeiladau yn ystod 2025/26 sef cartref gofal Hafod Mawddach, Ysgol Llanbedrog, a chanolfan Byw'n Iach Penllyn (Y Bala). Gwnaed gwaith addasu sylweddol a hynny er mwyn peidio gwastraffu ynni fydd yn ei dro yn arbed arian a charbon. Mae'r gwaith yma'n angenrheidiol hefyd er mwyn paratoi'r safleoedd ar gyfer gosod pypiau gwres. Roedd hyn i gyd yn bosib oherwydd cyfraniad Grant Gwres Carbon Isel gan Lywodraeth Cymru. Rhagor o wybodaeth am Ysgol Llanbedrog isod.

Trydaneiddio systemau gwresogi

Ar ôl uwchraddio safleoedd Hafod Mawddach, Ysgol Llanbedrog a Byw'n Iach Penllyn roeddynt wedyn yn barod i ni osod pypiau gwres. Gan nad yw'n bosib cau'r safleoedd tra fod y gwaith yn cael ei wneud, mae'n rhaid bod yn amyneddgar wrth amserlenu'r gwaith, ond edrychwn ymlaen at weld canlyniadau diwedd y prosiect yn 2026.

Yn 2025/26 gosodwyd pypiau gwres hefyd mewn 3 safle newydd: Ysgol ein Harglwyddes (Bangor), Ysgol Felinwnda ac Uned Iaith Ysgol Maesincla (Caernarfon). Mae 11 safle wedi eu gwresogi gan bympiau gwres bellach.

Gosod paneli solar PV er mwyn arbed ynni a chostau

Gosodwyd paneli solar ar 6 safle newydd, ac fe ychwanegwyd rhagor o baneli ar 9 safle arall yn ystod 2025/26, gan gynhyrchu 973.25 kW o drydan glân yn flynyddol.

Daw hyn â chyfanswm safleoedd sy'n eiddo i Gyngor Gwynedd sy'n cynhyrchu trydan eu hunain i 64. Mae 50 o'r rhain yn ysgolion a 6 yn gartrefi gofal neu nyrsio.

Fe welwn y canlyniadau'n llawn yn ystod 2026/27 ond mae disgwyl i'r holl osodiadau PV arbed costau prynu ynni o £34,495 bob blwyddyn yn ogystal ag arbedion carbon blynyddol o 128.7tCO₂e.

Paneli Solar, a mwy...

Prosiect cyffrous iawn a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn oedd gosod canopi solar ar Ysgol Hafod Lon ym Mhenrhyndeudraeth, fel rhan o system ynni clyfar lleol. Rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn isod.

Diolch i grant gan Ynni Cymru fe osodwyd systemau ynni clyfar lleol yng nghanolfannau hamdden Byw'n Iach Plas Silyn (Penygroes) a Plas Ffrancon (Bethesda). Mae paneli solar wedi eu gosod fydd yn pweru'r adeiladau, gyda gweddill y trydan yn cael ei storio mewn batris. Bydd y rheiny yn eu tro yn pweru hwb gwefru cymunedol.

Cynllun Goleuadau LED

Mae bylbiau LED yn defnyddio llawer iawn llai o drydan na bylbiau golau 'hir oes' eraill, ac felly mae budd ariannol mawr mewn arbed costau trydan, a budd arbedion carbon yn sgil hynny.

Gosodwyd oleuadau LED ar 8 safle yn ystod 2025/26, ac o'r data sy'n bodoli rydym wedi arbed o leiaf 29,513 kWh o drydan mewn blwyddyn sy'n arwain at arbed £6,492.86 o gostau blyneddol.

Goleuadau stryd, arwyddion, a thraffig

Fe ychwanegwyd 64 safle newydd at rwydwaith goleuadau stryd Gwynedd yn ystod 2025/26 (ee. stadau tai newydd, priffyrdd). Er hynny, rydym yn dal i weld gostyngiad defnydd ynni a 13% o ostyngiad mewn allyriadau carbon ers y flwyddyn flaenorol oherwydd ein bod yn parhau efo rhaglen adnewyddu goleuadau LED. Mae'r gostyngiad carbon ers blwyddyn waelodlin 2019/20 yn 44%.

Cyngor ynni ar dlodi tanwydd

Mae Tîm Ynni y Cyngor yn cefnogi trigolion gyda chostau ynni, a gwybodaeth am effeithlonrwydd ynni yn y cartref a gwybodaeth am dariffau. Cynhaliwyd dros 100 o sesiynau galw heibio i roi cyngor a gwybodaeth i drigolion, a llawer o'r rhain mewn cydweithrediad â mudiadau cymunedol lleol.

Mae ECO4 yn gynllun cenedlaethol sy'n helpu aelwydydd incwm is i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi, gan leihau biliau a charbon. Fe wnaeth 1,140 o gartrefi yng Ngwynedd dderbyn grant ECO4, a chynyddu eu sgôr EPC gan leihau biliau.

Yn anffodus bydd cynllun ECO4 yn dod i ben yn derfynol fis Rhagfyr 2026 ond mewn gwirionedd mae ceisiadau mae'r cynllun wedi arafu'n sylweddol ers Rhagfyr 2025. Yr ydym yn disgwyl cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ar beth sy'n dod nesaf o dan y cynllun Cartrefi Cynnes.

Cynllun Ynni Ardal Lleol (LAEP)

Comisiynodd Llywodraeth Cymru raglen i bob awdurdod lleol yng Nghymru i ddatblygu Cynllun Ynni Ardal Leol er mwyn cyfrannu at y targedau cenedlaethol i gyrraedd sero net. Mabwysiadodd Cabinet Cyngor Gwynedd ein Cynllun Ynni Ardal Lleol fis Medi 2025, a'i fwriad ydi edrych ar y dulliau mwyaf effeithlon a chost effeithiol o ddadgarboneiddio system ynni gyflawn i Wynedd erbyn 2050.

Budd ychwanegol

Mae'r holl waith uchod wedi arwain at wariant gyda nifer o gontractwyr lleol, gyda 4 cwmni yn lleol i Wynedd. Nid yn unig y mae hyn wedi cadw'r bunt yn yr economi leol ond y mae hefyd wedi uwchraddio sgiliau'r gweithlu, gan gryfhau eu sefyllfa i'r dyfodol.

Stori llwyddiant - Ysgol Llanbedrog

Mae disgyblion a staff yr ysgol bellach yn yn dysgu a gweithio mewn awyrgylch llawer iawn fwy llwyddiannus. Mae'r prosiect gwres carbon isel hwn wedi adnewyddu'r system wresogi ynghyd ag ôl-osod gwelliannau i ffabrig adeilad Fictoraidd yr ysgol a'i estyniadau.

Dechreuodd y prosiect yn 2024 yn dilyn llwyddiant y Cyngor wrth sicrhau nifer o grantiau drwy Raglen Grant Gwres Carbon Isel Llywodraeth Cymru. Disgwylir l'r prosiect gwblhau ym mis Hydref 2026.

Mae'r gwaith wedi cynnwys gosod pwmp gwres ffynhonnell aer (*ASHP*), insiwleiddio mewnol ac allanol, ffenestri gwydr triphlyg, a system awyru mecanyddol sydd yn adennill gwres (*MVHR*). Gyda'i gilydd, mae'r mesurau hyn wedi creu prosiect ôl-osod cynhwysfawr sy'n gwella perfformiad ynni'r adeilad, yn lleihau allyriadau carbon, ac yn darparu amgylchedd mwy cyfforddus a chynaliadwy i ddisgyblion a staff Ysgol Llanbedrog.

Stori llwyddiant - Ysgol Hafod Lon

Datblygwyd system ynni clyfar lleol newydd ar safle'r ysgol yn ystod 2025/26, ac mae'r trydan a gaiff ei gynhyrchu nid yn unig yn arbed costau ynni i'r ysgol, ond hefyd yn pweru pwynt gwefru ar gyfer bws mini trydan newydd sy'n cludo'r disgyblion i'r ysgol ac yn ôl adref.

Gosodwyd systemau solar 139kW ar y safle – cyfuniad o baneli solar ar y to ac 147 o baneli ar ganopi solar 120kW sydd yn cyflenwi trydan i adeilad yr ysgol, pwynt gwefru bws mini, ac i fatri 215kW.

Ar adegau brig o gynhyrchiant solar yn yr haf, amcangyfrifwyd fod yr ysgol yn 50% hunan-gynhaliol yn sgil y prosiect. Mae arbedion sylweddol yn sgil y prosiect yn nhermau mewnforio llai o ynni gan y grid, arbedion ariannol yn sgil biliau trydan llai (amcangyfrif o £19,941 y flwyddyn), ac arbedion carbon (amcangyfrif o 24tCO₂e y flwyddyn).



r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio uchod i gyd yn cyfrannu at wireddu **Prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** -

1. Anelu am fuddion tymor hir wrth gynllunio gwaith adeiladu neu adnewyddu adeiladau
2. Arbed 5% o allyriadau carbon o adeiladau drwy ddod â hwy i safon 'arfer dda' CIBSE
3. Datgarboneiddio cyflenwad ynni'r cyngor
4. Cynyddu ein 'credyd' carbon drwy osod ffermydd solar er mwyn cynhyrchu ynni y gall y Cyngor ei ddefnyddio neu ei werthu
5. Lleihau ein allyriadau carbon drwy ehangu ein defnydd o PV i greu ynni adnewyddadwy

6. Defnyddio dulliau adeiladu carbon isel *Passivhaus* wrth ddatblygu ein cynllun peilot tai arloesol
7. Cynnig cyngor a gwybodaeth i drigolion Gwynedd am fanteision a chyfleoedd i ddefnyddio dulliau adeiladu carbon isel wrth adeiladu cartrefi a systemau gwresogi/ynni carbon isel i gynnal cartref
8. Gwella ffabrig adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn eu gwneud mor effeithlon o ran ynni a phosibl.
9. Trydaneiddio systemau gwresogi adeiladau er mwyn lleihau allyriadau carbon
10. Gosod ffaniau awyru EC mewn adeiladau er mwyn lleihau'r ynni sydd ei angen i'w rhedeg o'i gymharu â ffaniau arferol
11. Gosod rheoliadau gwresogi ystafelloedd unigol er mwyn lleihau'r ynni sydd ei angen i wresogi adeilad
12. Uwchraddio goleuadau arbenigol mewn canolfannau hamdden er mwyn defnyddio llai o ynni
13. Uwchraddio goleuadau stryd ac arwyddion traffig er mwyn defnyddio llai o ynni
14. Rhwystro gor-ddatblygu cynlluniau ynni tanwydd ffosiledig
15. Uchafu i'r eithaf y buddion a ddaw o weithredu ein polisiau ynni a gwresogi
16. Offer a ddefnyddir o fewn adeiladau'r cyngor i fod mor effeithlon o ran ynni a phosibl
17. Gwella'r isadeiledd ynni yng Ngwynedd a gogledd Cymru er mwyn cynnal systemau ynni a thrafnidiaeth carbon isel

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r gwaith uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Symud a Thrafnidiaeth

Mae'r allyriadau carbon o **fflyd** y cyngor yn 2025/26 yn 25% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 3% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 4% o ostyngiad ers 2024/25.

Mae'r allyriadau carbon o **gymudo staff** yn 2025/26 yn 20% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 30% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 6% o gynnydd ers 2024/25.

Mae'r allyriadau carbon o **deithio busnes** yn 2025/26 yn 6% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 37% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 4% o ostyngiad ers 2024/25.

Cynllun Fflyd Werdd

Ers mabwysiadu ein Cynllun Fflyd Werdd 2023-29 fis Ionawr 2023 ein polisi yw i brynu cerbydau trydan (EV) newydd ble mae'n bosib wrth i'r fflyd bresennol o geir petrol a disel ddod i ddiwedd eu hoes.

Mae'r Cyngor bellach yn berchen ar 82 car neu fan fechan trydan a 9 hybrid, a 6 offer trydan (*loading shovels*, peiriannau glanhau strydoedd), sef 40% o'r holl geir a faniau yr ydym yn berchen arnynt.



Rydym wedi llwyddo i arbed costau ynni ac allyriadau carbon yn ystod y flwyddyn gan i ni weld gostyngiad o 6.1% ar ddefnydd tanwydd (petrol a disel) rhwng 2024/25 a 2025/26.

Roedd hyn oherwydd trosglwyddo i fflyd drydan a thywydd ffafriol yn golygu llai o deithiau graeanu yn y gaeaf.

Mae 66% o holl allyriadau carbon ein fflyd yn deillio o'n cerbydau HGV, a hynny oherwydd ein bod yn parhau i ddefnyddio lorïau disel. Dylid cofio hefyd mai cerbydau casglu a danfon gwastraff, a cherbydau graeanu ffyrdd yw'r lorïau HGV yma, ac felly mae allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â chasglu gwastraff a'i ddanfôn i gael ei brosesu yn cael ei gofnodi o dan allyriadu carbon 'fflyd' yn hytrach na 'gwastraff'.

Pwyntiau Gwefru Ceir Trydan

Fflyd – erbyn diwedd 2025/26 roedd gan y Cyngor 58 pwynt gwefru mewn 12 lleoliad ar draws y sir er mwyn cadw ein fflyd o gerbydau trydan ar y ffordd.

Cyhoeddus - erbyn diwedd 2025/26 roedd y Cyngor wedi gosod 48 o bwyntiau gwefru mewn 12 lleoliad, ac mae 12 pwynt gwefru ychwanegol ar 4 o safleoedd y Cyngor drwy gydweithrediad gyda Thrafnidiaeth Cymru.

Stori lwyddiant – Cynllun Fflyd Werdd

Adroddwyd gan y Gwasanaeth Ynni (Llywodraeth Cymru), fod gan Cyngor Gwynedd yr ail nifer fwyaf o gerbydau gwyrdd yn ei fflyd wrth gymharu gyda cynghorau gwledig eraill yng Nghymru.

Teithio llesol

Bangor - Gorffenwyd y gwaith o greu llwybr aml-ddefnydd ar gyfer beicwyr a cherddwyr rhwng Ysbyty Gwynedd a Threborth. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys gosod croesfan newydd o flaen Ysgol y Faenol, Penrhosgarnedd, Bangor

Mynytho – Crewyd llwybrau cerdded a chroesfannau ar gyfer Ysgol Foel Gron, ynghyd â gwell llwybr troed a chroesfan i gysylltu efo'r siop a'r swyddfa bost.

Mae nifer o brosiectau eraill a gychwynwyd yn 2025/26 sy'n cario mlaen i 2026/27 a 2027/28 -

- Llwybrau cerdded a beicio Chwilog i Afonwen, a Thywyn i Aberdyfi.
- Gwaith dichonoldeb a dylunio ar gyfres o gynlluniau eraill yn cynnwys llwybrau teithio: Llanberis-Caernarfon, Llanystumdwy-Cricieth, Bethel-Caernarfon.

Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am reoli a chynnal llwybr yr arfordir yn y sir. Fe wnaethom osod dyfeisiadau monitro defnydd llwybrau mewn 8 lleoliad ar hyd y llwybr yr arfordir, a'r 3 safle efo'r defnydd uchaf o'r 8 oedd – Dinas Dinlle, Llanbedrog, Penrhyn Bangor.

Stori lwyddiant – Lôn Las Ogwen

Mae'r gwaith o adeiladau pont newydd, Pont Sarnau, wedi creu llwybr fwy diogel a hygyrch i bawb sydd eisiau cerdded, beicio neu olwynio ar hyd y Lôn Las yn y rhan yma o Ddyffryn Ogwen, gan wella cysylltiad gyda llwybrau i gyrraedd Llyn Ogwen ac atyniad Zip World.

Mae'r gwelliannau'n cynnwys gosod tanffordd ar gyfer gwartheg fel nad oes angen cau'r llwybr yn achlysurol, fydd yn helpu ffermwyr a defnyddwyr y llwybr fel ei gilydd.

Stori lwyddiant – Teithio llesol ysgolion

Paratowyd Becyn Trafnidiaeth Ysgolion fel rhan o ymdrechion i wella diogelwch o amgylch ysgolion ac annog mwy o deithio cynaliadwy ledled y sir. Mae'r pecyn wedi ei ddatblygu i ddarparu gwybodaeth glir ac ymarferol i benaethiaid, staff ysgolion a rhieni, ynghyd ag adnoddau defnyddiol i hyrwyddo teithio llesol a lleihau tagfeydd traffig o amgylch ysgolion, fydd yn ei dro yn gwella ansawdd aer y mae ein plant yn ei anadlu.

Mae'r pecyn wedi ei ddatblygu gan Gyngor Gwynedd, ac wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru gyda chefnogaeth gan Drafnidiaeth Cymru.



Trafnidiaeth gyhoeddus

Yn ystod 2025/26 bu'r Cyngor yn peilota a monitro defnydd gwasanaethau Sherpa'r Wyddfa, y G23 rhwng Y Bermo a Phorthmadog a Fflecsi yn ne Meirionnydd – gwelwyd gynnydd o 6.6% yn nifer y teithiau ar y flwyddyn flaenorol.

Ar draws gwasanaethau bysiau'r sir fe welwyd gynnydd o 14.7% mewn siwrneiai bysiau yn 2025/26 o'i gymharu a 2024/25.

Gostyngiad 4% mewn teithiau gan rai sy'n talu am docyn ond cynnydd 36% mewn teithiau gyda thocyn teithio rhad. Mae 60% o siwrneiai gyda thocyn talu a 40% gyda thocyn teithio rhad.

Cwblhawyd welliannau gwerth £500,000 i aros fannau bysiau mewn 3 lleoliad yn Arfon, 3 yn Nwyfor a 3 ym Meirionnydd.

Cymudo Staff

Mae'r data yr ydym wedi ei gasglu ar gyfer 2025/26 ychydig yn wahanol i flynyddoedd blaenorol gan ein bod wedi cynnal holiadur cymudo staff. Gan nad oedd y sampl a gasglwyd yn ddigon cynrychioladol, mae'r data terfynol yn gyfuniad o ddadansoddiad o'r holiadur ac o ddata yn seiliedig ar Gyfrifiad 2021.

Teithio Busnes

Un newid arwyddocaol a wnaethpwyd yn ystod 2025/26 oedd newid ein trefniadau er mwyn mesur yr allyriadau carbon sy'n deillio o deithiau busnes yn llawer fwy cywir na'r blynyddoedd blaenorol.

Mae staff a chynghorwyr yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus neu geir preifat er mwyn gwneud taith angenrheidiol ar gyfer eu gwaith, ac rydym bellach yn gallu cysylltu â systemau data'r DVLA er mwyn derbyn mesur cywir o allyriadau carbon injian y cerbyd.

Mae'n newyddion calonogol felly fod yr allyriadau yn gostwng, yn enwedig gan fod nifer o deithiau yn cael eu gwneud ar drafnidiaeth gyhoeddus neu gerbydau trydan personol.

Mae'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio uchod i gyd yn cyfrannu at wireddu **Prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** -

1. Symud oddi wrth defnyddio cerbydau tanwydd ffosil tuag at fflyd o gerbydau (ceir a faniau) ULEV
2. Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer cerbydau'r cyngor
3. Bod ag opsiynau tanwydd carbon isel neu ddi-garbon ar gyfer fflyd trwm y cyngor
4. Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer trigolion Gwynedd

5. Lleihau teithio busnes
6. Lleihau allyriadau carbon drwy arferion cymudo staff
7. Annog teithio llesol ymysg staff – er budd iechyd a lles ac i leihau allyriadau carbon
8. Annog teithio llesol ymysg trigolion ac ymwelwyr i Wynedd er mwyn gwella lles corfforol a meddyliol a lleihau allyriadau carbon teithiau ceir byr
9. Lleihau allyriadau carbon a phroblemau parcio mewn ardaloedd sy'n boblogaidd ymysg ymwelwyr
10. Cynyddu'r cyfleoedd i fudiadau cymunedol gael mynediad at gerbydau EV neu ULEV neu ddefnyddio technoleg carbon isel

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r gwaith uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Gwastraff

Mae'r allyriadau carbon o wastraff y cyngor yn 2025/26 yn 0% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 100% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn gyson â ffigwr 2024/25.

Fe newidiodd Llywodraeth Cymru y fethodoleg o gyfrifo allyriadau carbon gwastraff yn 2024/25. Bellach mae pob dull o drin gwastraff, ar wahân i dirlenwi, (ee. ailgylchu, hylosgiad, treulio anerobig ayb) yn rhoi ffigwr o sero i ni. Mae holl wastraff gweddilliol trigolion a busnesau Gwynedd yn cael ei drin ar safle Parc Adfer yng Nglannau Dyfrdwy, ble mae'n cael ei losgi i gynhyrchu ynni, ac felly nid oes gwastraff yn mynd i dirlenwi.

Dylid cofio mai ffigwr ar gyfer **prosesu** gwastraff yw 0%, gan fod allyriadau carbon **casglu** gwastraff a'i **ddanfon** i gael ei brosesu yn cael eu cyfri o dan allyriadau carbon fflyd – gweler y bennod 'Symud a Thrafnidiaeth'.

Er bod y gyfran o'n gwastraff sy'n cael ei ailgylchu wedi codi o 55% i 65% dros y ddegawd ddiwethaf, mae'r cynnydd wedi stopio. Canran ailgylchu Gwynedd yn 2025/26 oedd 65.1% o'i gymharu â 65.3% yn 2024/25. Bydd yn dipyn o her felly i ni gwrdd â tharged Llywodraeth Cymru ar gyfer ailgylchu, ailddefnyddio a chompostio 70% o'n gwastraff.

Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu 2025-2030

Bu 2025/26 yn flwyddyn o ddatblygu, ac ymgynghori â chyhoedd Gwynedd, ar y strategaeth newydd. Cafodd ei mabwysiadu'n derfynol gan y Cabinet fis Gorffennaf 2026.

Mae'r strategaeth yn rhoi pwyslais ar gynyddu ailgylchu, gwella gwasanaethau, cynnal seilwaith presennol a buddsoddi mewn isadeiledd y dyfodol.

Newid arferion ailgylchu

Tra fod yn gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd yn mynd rhagddo, bu'r gwasanaeth ailgylchu yn treialu trefniadau newydd er mwyn cynyddu faint o wastraff sy'n cael ei ailgylchu a lleihau faint sy'n cael ei ddanfon i'w brosesu ym Mharc Adfer:

- treial sachau hesian wedi ei beilota mewn 3 cylchdaith yn ardal Arfon
- agor bagiau du yn y canolfannau ailgylchu er mwyn trio symud gwastraff fyddai wedi cael ei daflu a'i roi yn y sgipiau ailgylchu yn lle
- ymgyrch codi ymwybyddiaeth i drigolion

Glendid a gwastraff strydoedd

Mae'r Tîm Tacluso yn cynnig gwasanaeth glanhau a chynnal a chadw strydoedd, a clirio tipio anghyfreithlon. Dyma rai canlyniadau:

- 31% o ostyngiad mewn tipio anghyfreithlon rhwng 2024/25 a 2025/26

- Mae Cadw Cymru'n Daclus yn monitro lefelau glendid ar draws awdurdodau lleol, ac roedd nifer y safleoedd archwilwyd yng Ngwynedd yn 2025 a oedd yn cyrraedd y lefel derbyniol yn 64.5% o'i gymharu â 58.5% yng Nghymru gyfan.

Lleihau gwastraff bwyd

Mae Cronfa Cymorth Argyfwng Bwyd yn grant sy'n cefnogi prosiectau sy'n darparu cymorth bwyd i bobl. Yn ystod 2025/26 cefnogwyd 41 o grwpiau cymunedol drwy'r gronfa, gyda £150,300 yn cael ei ddynnu i gefnogi banciau bwyd, pantris bwyd, clybiau swper, a darpariaeth pecynnau bwyd.

Lleihau defnydd papur

Yn ystod 2025/26 fe gychwynodd cytundeb newydd ar gyfer argraffyddion ar draws safleoedd y Cyngor, a bydd y trefniadau newydd yn lleihau'n sylweddol ar ddefnydd papur ac yn arbed ynni.

Mae'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio uchod i gyd yn cyfrannu at wireddu **Prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** -

1. Trwsio ac addasu offer a fyddai fel arall yn cael ei waredu a'i losgi, a'i werthu
2. Lleihau'r nifer o eitemau sy'n cyrraedd safleoedd llosgi gwastraff drwy annog pobl i drwsio ac ail-ddefnyddio
3. Hyrwyddo economi gylchol er mwyn lleihau nifer yr eitemau sy'n cael eu gwaredu a lleihau allyriadau carbon yn y gadwyn gyflenwi o brynu nwyddau newydd
4. Lleihau gwastraff bwyd drwy gefnogi prosiectau cymunedol sy'n ceisio ail ddosbarthu bwyd fyddai fel arall yn cael ei daflu
5. Lleihau'r gwastraff stryd sy'n mynd i'w waredu a chynyddu'r gwastraff stryd sy'n cael ei ailgylchu
6. Lleihau defnydd papur

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r gwaith uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

Llywodraethu

Nid oes allyriadau carbon yn deillio'n uniongyrchol o'r gwaith yn y maes Llywodraethu.

Gwella sgiliau a gwybodaeth

Rydym yn parhau i hyrwyddo ein e-fodiwl hyfforddiant Hinsawdd a Natur ymysg staff a chynghorwyr gan ei fod yn esbonio pam angen i'r Cyngor ymhel â gwaith yn y meysydd yma.

Gweler y bennod Bioamrywiaeth / Ecoleg am wybodaeth am hyfforddiant gwarchod coed.

Datblygu'r Gweithlu

Penodwyd 2 aelod newydd o staff ar gytundebau hyfforddai proffesiynol a phrentis yn ystod haf 2025:

- Hyfforddai Proffesiynol Ecolegydd Cynllunio
- Prentis Gradd Ynni

Adolygu Polisiâu

Bu 2025/26 yn flwyddyn o adolygu ac ail greu rhai o'r prif strategaethau sy'n arwain gwaith hinsawdd a natur y Cyngor. Fe wnaethom ymgynghori yn ystod y flwyddyn ar y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur a'r Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu, ac yna fe gawsant eu derbyn gan y Cabinet yn fuan yn 2026/27.

Cafodd Strategaeth Caffael 2026-2031 hefyd ei derbyn gan Gabinet y Cyngor yn ystod y flwyddyn, ac mae hi'n rhoi arweiniad cadarn ar brynu'n lleol, ennill gwerth cymdeithasol a lleihau carbon.

Rhannu gwybodaeth er mwyn newid arferion

Rhaid cydnabod mai newid arferion sydd wedi eu gwreiddio'n ddwfn yw un o'r tasgau anoddaf ar ein taith i sero net. Er hynny, rydym wedi defnyddio ein cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth a straeon newyddion da am sut all trigolion a busnesau, yn ogystal â staff a chynghorwyr, leihau ein ôl troed carbon.

Buom yn ymgynghori'n eang â mudiadau cymunedol, sefydliadau cyhoeddus eraill, a thrigolion wrth ddatblygu'r Cynllun Ynni Ardal Lleol, ac mae gwaith wedi dechrau i drafod cydweithio ar gynlluniau ynni i'r dyfodol.

Mae'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio uchod i gyd yn cyfrannu at wireddu **Prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** -

1. Aelodau etholedig a staff sydd:

- yn deall oblygiadau effaith newid hinsawdd
 - yn cymryd penderfyniadau ar sail gwybodaeth am yr effeithiau
 - yn gweithredu yn y modd mwyaf cadarnhaol posib tuag at liniaru effaith newid hinsawdd a bod yn ecolegol gadarnhaol
2. Annog staff i ddatblygu gyrfa mewn meysydd sy'n lleihau effaith newid hinsawdd neu'n ecolegol gadarnhaol
 3. Adolygu polisiau a strategaethau presennol y cyngor fel bod lleihau allyriadau carbon neu leihau effaith newid hinsawdd yn ffactor wrth ddod i benderfyniad
 4. Rhannu gwybodaeth yn gyhoeddus am y gwaith y mae'r cyngor yn ei wneud i leihau allyriadau carbon er mwyn annog eraill i newid arferion
 5. Cefnogi cymunedau i gynllunio a darparu atebion lleol i anghenion lleol

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r gwaith uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Caffael

Roedd 70% o allyriadau carbon y cyngor yn ystod 2025/26 yn deillio o'n prosesau caffael, sydd yn 16% o gynnydd ers 2019/20 ac yn 14% o ostyngiad ers 2024/25.

Mae'r dull o fesur allyriadau carbon caffael, neu'r gadwyn gyflenwi, yn seiliedig ar wariant yn unig. Yn syml, po fwyaf yw'r gwariant, po fwyaf yw'r allyriadau. Mae'r gost gynyddol o brynu nwyddau a gwasanaethau, a chynnydd chwyddiant, yn arwain felly at gynnydd mewn allyriadau carbon o dan y pennawd 'caffael'.

Oherwydd problemau'r fethodoleg yma rydym yn cyflwyno dwy set o ddata allyriadau – hefo, a heb, data caffael.

Gwella ein tystiolaeth

Er mwyn ceisio symud i ffwrdd oddi wrth y fethodoleg gwariant yn unig, buom yn cydweithio gyda'n cyflenwyr mewn 4 maes sydd â gwariant uchel er mwyn cael gwybodaeth llawer fwy cywir am eu allyriadau carbon – cytundebau bwyd i ysgolion, cytundebau cludiant ysgolion, offer technoleg gwybodaeth, argraffwyr.

Rhodddwyd yr wybodaeth i mewn i adran 'Tier 2' yn nhaenlen data carbon Llywodraeth Cymru, ac mae'r canlyniadau wedi dangos bod yr allyriadau wedi gostwng o'i gymharu â mesur ar sail gwariant.

Cefnogi cyflenwyr

Os ydym yn helpu ein cyflenwyr i ddadgarboneiddio eu ffordd o weithio, bydd hynny yn ein helpu ni i ddeall allyriadau carbon ein cadwyn gyflenwi yn well, yn ogystal â helpu'r hinsawdd!

Yn ystod 2025/26 bu'r Cyngor yn cydweithio â Busnes Cymru ac Adra i gynnal sesiynau cymorth i ddarparwyr y sector gofal a tai, a'u helpu i greu Cynlluniau Rheoli Carbon.

Mae swyddogion wedi cynnal digwyddiadau 'cwrdd â'r prynwyr' i amlygu'r disgwyliadau wrth osod cytundeb caffael, ac mae gostwng allyriadau carbon yn un o'r rheiny.

Strategaeth Caffael 2026-2031

Mae'r strategaeth newydd gafodd ei derbyn gan y Cabinet fis Ionawr 2026 yn adnabod saith maes blaenoriaeth sydd yn cynnwys: Budd Lleol, Carbon sero, Gwerth am arian, Gwerth Cymdeithasol, Technoleg, Trefniadau llywodraethu a'r Gymraeg.

Er mwyn helpu i weithredu'r strategaeth newydd rydym wedi bod yn cefnogi swyddogion o fewn y Cyngor sy'n gosod cytundebau yn rheolaidd i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r amcanion i brynu'n lleol, ennill gwerth cymdeithasol a lleihau carbon.

Mae'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio uchod i gyd yn cyfrannu at wireddu **Prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** -

1. Darparu cefnogaeth i'r farchnad, yn enwedig i ddarparwyr lleol, i fedru mesur effaith eu gweithrediadau ar eu ôl-troed carbon
2. Deall a mesur allyriadau carbon wrth wireddu contractau yn y gadwyn caffael

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 5: Gwellu ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Mae'r gwaith uchod yn cyfrannu at y ddau Amcan yma, gan y byddai derbyn a monitro Cynlluniau Rheoli Carbon yn rhoi tystiolaeth i ni o sut mae darparwyr am warchod bioamrywiaeth.

Defnydd Tir

Rydym yn defnyddio ffigwr wedi ei amcangyfrif ar hyn o bryd ar gyfer lefelau amsugno holl diroedd y cyngor (sy'n cynnwys safleoedd 'llwyd' sydd wedi eu hadeiladu) tra yr ydym yn gwirio cywirdeb y data.

Gan nad oes newidiadau mawr wedi bod rhwng 2025/26 a'r flwyddyn flaenorol rydym yn defnyddio data 2024/25 dros dro.

Mae holl diroedd y Cyngor yn amsugno gwerth 3,123,254 kgCO₂e net o garbon yn 2024/25 a 2025/26. Mae hyn 47% yn llai na blwyddyn waelodlin 2019/20.

Mae gwrthbwysu'r carbon sy'n cael ei amsugno yn erbyn ein allyriadau carbon yn cyfrannu at leihau'r bwlch i sero net.

Sefydlu a datblygu meithrinfeydd coed

Bu'n rhaid rhoi gofal ychwanegol i dair meithrinfa goed bresennol – ym Mhlas Glyn y Weddw Llanbedrog, Blaenau Ffestiniog a Thregarth – yn dilyn stormydd mawr 2025/26, ond bu'n bosib gwneud y gwaith atgyweirio angenrheidiol.

Mae rhywogaethau newydd o goed eithnen ac afal cymreig sy'n unigryw yn enetig wedi eu darganfod a hadau wedi eu hel a'u ail blannu yn y meithrinfeydd.

Mae meithrinfa goed newydd wedi cychwyn cael ei sefydlu ym Mharc Glynllfion ger Caernarfon, mewn prosiect cyffrous newydd ar y cyd ag Adran Oedolion er mwyn cynnig cyfleoedd gwaith a lles i oedolion bregus.

Plannu coed trefol

Llwyddwyd i ddenu grant gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i redeg astudiaeth dichonoldeb i weld pa goed fydd orau i'w plannu ac ym mha leoliadau mewn ardaloedd trefol ac arfordirol. Dylai'r gwaith arwain at greu rhaglen blannu coed i helpu gyda risg llifogydd a chreu awyrgylch i helpu lles trigolion.

Gwarchod coedlannau

Drwy waith Partneriaeth Natur Gwynedd, bu'r Cyngor yn rhan o'r gwaith i wella mynediad i'r cyhoedd at goedlannau Parc Meurig ym Methesda a Coed Doctor yn Llanberis.

Planwyd 4 perllan gymunedol yng Nghricieth, Y Ffor, Carmel ac Abererch ar y cyd â mudiadau lleol.

Mesur carbon mewn coed

Dechreuodd y gwaith i ymchwilio pa fodel sydd yn siwtio ein coedlannau orau –mae drôn yn gallu mesur faint o bren a phren marw sydd mewn coedlan, ac rydym hefyd yn defnyddio systemau Ezytreev a systemau Forest Research.

Bydd gallu mesur yn gywir yn bwysig nid yn unig er mwyn deall gwerth carbon coed at bwrpas ein taith i sero net, ond hefyd er mwyn deall iechyd y coed er mwyn eu trin a'u gwarchod. Mae hyn yn hanfodol fel rhan o waith y tîm sy'n gyfrifol am Clwy'r Onnen.

Mesur carbon ein tiroedd

Buom yn cydweithio gyda DataMapWales a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gynllun cenedlaethol i weld os oedd yn bosib i fapio gwerth carbon tiroedd, ond yn anffodus doedd canlyniadau'r prosiect ddim yr hyn yr obeithwyd amdano. Rydym felly'n parhau i arbrofi gyda'r dulliau gorau o fesur a chadw cofnod.

Yn y cyfamser, rydym yn defnyddio data sy'n codi o fapiau OS, a methodoleg casglu data carbon Llywodraeth Cymru.

Mae'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio uchod i gyd yn cyfrannu at wireddu **Prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** -

1. Adnabod cyfraniad coed sy'n eiddo i'r cyngor i amsugno a storio carbon a lleihau llifogydd
2. Adnabod cyfraniad tiroedd sy'n eiddo i'r cyngor i amsugno a storio carbon a lleihau llifogydd
3. Sefydlu meithrinfeydd coed er mwyn tyfu coed yn barod i'w plannu
4. Adnabod cyfleon i blannu coed fel rhan o fenter Coedwig Cenedlaethol Cymru
5. Rheoli Clwy yr Onnen mewn coed a gwneud yn iawn am unrhyw allyriadau carbon fyddai'n ganlyniad i dorri coed
6. Bod coedlannau sy'n eiddo i'r Cyngor yn cael eu gwarchod er mwyn gwneud y gorau o'u potensial i amsugno carbon a bod yn gynefinoedd i fyd natur
7. Gwarchod tir amaethyddol yng Ngwynedd a'i ddefnyddio i bwrpas cymwys, a rheoli prosiectau coedwigo

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at bob un o'r 6 amcan.

Bioamrywiaeth / Ecoleg

Cydweithio

Mae Partneriaeth Natur Gwynedd yn gasgliad o sefydliadau cyhoeddus a gwirfoddol ac unigolion sydd i gyd yn cydweithio er mwyn gwarchod a gwella byd natur yn y sir. Er mai Cyngor Gwynedd sy'n gweinyddu'r bartneriaeth, mae hi'n llwyddo oherwydd y lefel o gydweithio llwyddiannus.

Yn ystod 2025/26 bu'r Bartneriaeth yn cydweithio â 5 cyngor tref a chymuned ar waith i wella safon a mynediad at fyd natur yn y cymunedau. Bu'r Cyngor hefyd yn cydweithio, drwy'r Bartneriaeth, gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i wella safon a diogelwch tir ger Abersoch.

Cefnogi a rhoi'r gair ar led

Mae gwybodaeth am waith Partneriaeth Natur Gwynedd, Pen Llŷn a'r Sarnau, AHNE Llŷn a thimau bioamrywiaeth y Cyngor oll yn cael eu rhannu drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd, yn ogystal ag yng nghylchgronau Llygad Llŷn ac O Dan y Don.

Mae gweithdai addysgol wedi eu cynnal ym Mhlas Glyn y Weddw a safleoedd Tirlenwi Gwyllt Llwyn Isaf.

Bu'r Cyngor a'r Bartneriaeth yn ymweld â sioeau a ffeiriau lleol er mwyn magu diddordeb trigolion mewn gwarchod byd natur.





Stori lwyddiant - 'Iddyn Nhw'

Un o lwyddiannau mwyaf 2025/26 oedd ein cynlluniau i blannu a gwarchod dolydd blodau gwyllt, yn enwedig ar ymylon ffyrdd. Gosodwyd targed gan y llywodraeth i greu rhagor o ddolydd ar draws Cymru, a bellach mae dros 25% o'r holl ddolydd hynny yng Ngwynedd.

Mae'r prosiect hwn wedi profi nad oes angen tiroedd enfawr er mwyn gallu gwneud y gwahaniaeth mwyaf. Mae llecynnau o dir ar ochr ffordd, sy'n aml yn cael ei anwybyddu neu esgeuluso, yn gallu bod yn hafan gwerthfawr i bryfetach a bywyd gwyllt.

Peidiwch a meddwl, am fod gwair a blodau yn cael eu gadael i 'dyfu'n wyllt' nad oes llawer o ofal o'r lleoliad. I'r gwrthwyneb! Mae'r llun yn dangos peiriant sy'n cael ei ddefnyddio i dorri'r gwair yn ofalus ar ddiwedd y tymor er mwyn casglu hadau i'w plannu yn y tymor nesaf.



Mae'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio uchod i gyd yn cyfrannu at wireddu **Prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** -

1. Adnabod y camau sydd angen i ni eu cymryd er mwyn gwarchod cynefinoedd natur a bioamrywiaeth i'r dyfodol
2. Adnabod ein rhywogaethau a'n cynefinoedd gwerthfawr a pha fesurau sydd eu hangen i'w gwarchod a'u hadfer
3. Cynyddu nifer y peillwyr drwy warchod cynefinoedd neu blannu cynefinoedd newydd
4. Cefnogi mudiadau gwirfoddol a chymunedol a chynghorau tref a chymuned sy'n gwarchod neu'n hybu byd natur
5. Meithrin a chynnal diddordeb trigolion Gwynedd mewn materion ecolegol er mwyn iddynt fod eisiau helpu i warchod byd natur
6. Gwarchod cynefinoedd gwerthfawr i fyd natur

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at bob un o'r 6 amcan.

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Cymunedau
DYDDIAD	1af o Hydref 2026
TEITL	Cynnal Priffyrdd – Gosod Marciau Ffordd
RHESWM DROS GRAFFU	Adolygiad o drefniadau
AWDUR	Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianeg ac YGC
AELOD CABINET	Y Cynghorydd June Jones

1. Pam fod angen ei graffu?

Mae'r adroddiad yma yn cael ei gyflwyno gan fod y Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd yn adolygu trefniadau gosod marciau ffordd.

2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

Mae angen craffu'r pwyntiau isod:

- Addasrwydd trefniadau presennol ail-osod marciau ffordd
- Yr heriau sy'n effeithio gallu'r adran i gyrraedd gofynion rheoli priffyrdd sydd wedi eu hamlinellu o fewn y Llawlyfr Cynnal Priffyrdd
- Bwriad yr Adran i fuddsoddi mewn peiriannau i alluogi'r gwasanaeth ymgymryd â chanran uchel o waith marcio ffyrdd yn fewnol

3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r trefniadau presennol ar gyfer cynnal ac ail-osod marciau ffordd yng Ngwynedd, ynghyd â'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth wrth geisio cyflawni ei gyfrifoldebau statudol a gweithredol.

Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu i roi barn, sylwadau ac argymhellion ar y cynigion a amlinellir yn yr adroddiad, gan gynnwys y cynlluniau buddsoddi arfaethedig i gryfhau gallu'r gwasanaeth a gwella perfformiad wrth gynnal marciau ffordd ledled Gwynedd.

4. Cefndir / Cyd-destun

4.1 Cyfrifoldebau'r Adran

Mae gan yr adran gyfrifoldeb i reoli'r gwaith cynnal asedau priffyrdd sy'n cynnwys arwyddion a marciau ffordd. Mae'r cyfrifoldeb yma wedi ei amlygu o fewn ein Llawlyfr Cynnal Priffyrdd er mwyn sicrhau bod risgiau i ddefnyddwyr yn cael eu monitro a'u rheoli yn briodol.

Amlinellir o fewn y llawlyfr y mathau o ddiffygion a'r lefelau ymyrraeth a ddefnyddir. O fewn y rhestr fe welir fod 'Arwyddion hanfodol/marciau ffordd sydd ar goll/wedi torri/wedi erydu/wedi colli eu lliw' yn disgyn o fewn cyfrifoldeb gwasanaeth Cynnal Priffyrdd. Gall rhai o'r diffygion hyn fod yn achos o ddiffyg diogelwch ble mae gofyn i ymateb erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf.

Gweler **Atodiad A** ar gyfer enghreifftiau o'r marciau ffordd sydd angen eu cynnal ar ein ffyrdd.

4.2 Trefniadau gwaith cyfredol

Mae rhaglen waith y gwasanaeth am y flwyddyn ar gyfer gwaith marcio ffordd yn cael ei llunio gan nifer o ffactorau sef:-

- Archwiliadau Diogelwch gan Arolygwr Ffordd - bydd yr amseroedd gweithredu yn ddibynnol ar gategori'r ffordd
- Trefniadau Arolygon Technegol
- Cwynion rydym yn dderbyn gan y cyhoedd. Cafwyd 281 o ymholiadau am Farciau neu Arwyddion Ffordd yn 2025/26.
- Gwaith ail-osod llinellau yn dilyn gwaith ail wynebu tar a chip
- Ceisiadau gan y Tîm Trafnidiaeth i ail osod baeau anabl a llinellau melyn sengl a dwbl.
- Ceir hefyd geisiadau gwaith i osod marciau o'r newydd gan y Tîm Trafnidiaeth.

Caiff y gwaith ei rannu i waith bychan a gwaith mawr. Ar hyn o bryd rydym yn ymateb i waith bychan drwy ein timau mewnol Cynnal Priffyrdd e.e. ail osod llinellau o fewn cyffordd a rhoi marciau melyn mewn lleoliadau anodd eu cyrraedd. Trefnir ein gwaith yma trwy ein gweithlu mewnol sydd wedi eu hyfforddi i gario allan gwaith gosod marciau ffordd efo llaw (handlay). Ar hyn o bryd dim ond un cyfarpar sydd gennym er cyfarch gofynion yr holl sir.

Mae gwaith mawr yn disgyn o fewn y categori o fod angen peiriant pwrpasol i'w gwblhau. Ar hyn bryd nid oes gennym y peirannau yma ac felly yn ddibynnol ar gontractwyr allanol drwy'r gytundeb fframwaith. Dim ond dau gontractwr sydd ar y fframwaith i ymgymryd â'r math yma o waith ac oherwydd rhesymau pellter/prysurdeb mae trafferthion wedi bod yn rhaglennu'r gwaith angenrheidiol yma o fewn amser rhesymol. Mae'r cwmnïau yma yn gweithredu ar draws Gogledd Cymru ac yn cael eu comisiynu gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (ACGChC) ac Awdurdodau Lleol eraill, ac felly rydym yn cystadlu am eu gwasanaeth.

Gall y tywydd hefyd fod yn ffactor i drefnu'r math yma o waith ac yn ychwanegu at yr her o raglennu gwaith yn amserol.

O fewn cyllideb cynnal priffyrdd mae swm o £132,000 wedi ei glustnodi ar gyfer gwaith marciau ffordd ar gyfer 2026/27.

I grynhoi - mae'r ddibyniaeth ar gontractwyr allanol yn achosi oedi i'r rhaglen waith sydd yn golygu nad ydym bob tro yn cyfarfod trothwyon ein Cynllun Cynnal Asedau Priffyrdd. Gall hyn hefyd effeithio ar allu'r gwasanaeth gorfodaeth ffyrdd a strydoedd i reoli parcio.

Mae hefyd risgiau yn codi o beidio gweithredu ar amser drwy hawliadau yswiriant 3ydd parti yn deillio o ddiffygion diogelwch.

4.4 Camau i wella'r gwasanaeth

Cam 1

Ar gyfer gwaith mawr, rydym eisoes mewn trafodaethau gyda'r contractwyr allanol er mwyn gwella eu ymateb i'n ceisiadau am wasanaeth amserol.

Cam 2

Hyd yma rydym wedi buddsoddi mewn hyfforddi mwy o'n gweithlu mewnol cynnal ffyrdd i osod marciau ffyrdd efo llaw. Rydym yn barod wedi cymryd y penderfyniad i fuddsoddi mewn cyfarpar ychwanegol fel y gellir gweithredu ar drefn Gogledd a De. Bydd hyn yn sicrhau gwell ymateb a chael gwared â'r angen i symud y cyfarpar o un pen o'r sir i'r llall.

Cam 3

Datblygu cynllun busnes ar gyfer buddsoddi mewn cerbyd pwrpasol gan gyflwyno bid buddsoddi i arbed. Byddai buddsoddiad o'r fath yn gam cadarnhaol gan sicrhau gwelliant sylweddol er mwyn

- ymateb yn amserol i'r rhaglen waith ehangach
- lleihau ar y nifer cwynion
- sicrhau ein bod yn gallu ymateb yn amserol i geisiadau i ail osod llinellau melyn dwbl a sengl
- cadw'r gwaith o fewn ein gweithlu mewnol gan weld llai o ddibyniaeth ar contractwyr allanol
- creu'r cyfle i ddenu incwm gan ACGChG (sydd eisoes wedi dangos cefnogaeth)
- creu y posibilrwydd o ddenu gwaith gan awdurdodau lleol cyfagos fel Ynys Môn a Chonwy.

Bydd y camau yma yn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o bob adnodd ariannol sydd yn cyd-fynd ac egwyddor Gwynedd Effeithlon yng Nghynllun y Cyngor. Bydd yn gwella'r gwasanaeth i drigolion Gwynedd drwy allu ymateb yn gynt i ddiffygion a thrwy hynny byddwn yn rhoi anghenion pobl Gwynedd yn ganolog.

4.5 Monitro Effaith y Camau Gweithredu

Er mwyn sicrhau ein bod yn monitro'r ffordd newydd yma o weithio byddwn yn creu mesur perfformiad fydd yn cael ei fonitro yn ôl y drefn Herio a Chefnogi Perfformiad. Bydd modd mesur y nifer cwynion rydym yn derbyn ar gyfer marciau ffordd ac edrych ar ein hamser ymateb i ddiffygion sy'n deillio o farciau ffordd diffygiol.

5. Ymgynghori

Mae'r mater yma wedi deillio o bryderon a godwyd gan y cyhoedd a chynghorwyr. Mae ein staff mewnol yn ymwybodol o fwriad y gwasanaeth i symud i ffwrdd o fod yn llwyr ddibynnol ar contractwyr allanol ar gyfer gwaith gosod llinellau ffordd.

6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

6.1 A ydych wedi cynnwys trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?

Rydym wedi ystyried yr ymholiadau/cwynion rydym wedi derbyn gan y cyhoedd am farciau ffordd. Mae cyfarfodydd cydweithio gyda'r Adran Amgylchedd wedi cymryd lle a hefyd wedi amlygu'r broblem. Mae Adolygiad Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd ar y gweill a bu cyfle i staff nodi eu sylwadau am y gwasanaeth lle roedd cefnogaeth i edrych ar gwblhau mwy o'r gwaith yn fewnol.

6.2 A ydych wedi ystyried cydweithio?

Mae ystyriaeth wedi ei roi i gyd-weithio drwy gynnig y gwasanaeth newydd i Asiantaeth Cefnffyrdd ac Awdurdodau Lleol cyfagos. Mae ACGChC eisoes wedi dangos cefnogaeth i'r syniad ac y buasent yn ystyried ein comisiynu i gwblhau gwaith ar eu rhan.

6.3 Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i atal problemau rhag codi neu waethgu yn y dyfodol?

Bydd y gwasanaeth yn monitro eu rhaglenni gwaith yn barhaus a bydd mesur rheoli perfformiad yn cael ei ychwanegu er mwyn mesur a yw y nifer cwynion rydym yn dderbyn am farciau ffordd yn gostwng.

6.4 Sut ydych wedi ystyried yr hirdymor a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?

Rhagwelir bydd y galw am y gwasanaeth yn hirdymor yn parhau yn debyg i'r hyn ydyw ar hyn o bryd.

6.5 Er mwyn sicrhau integreiddio, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?

Fel y nodwyd byddai'r buddsoddiad yma am gynnig cyfleoedd i'r Cyngor allu cyd-weithio gydag Awdurdodau Lleol cyfagos ac yr ACGChC. Bydd hyn yn ei dro yn creu cyfle i ddenu incwm ychwanegol i'r Cyngor.

7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn mynnu bod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hybu cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng gwahanol gymunedau.

Mae'r Adran eisoes wedi creu asesiad effaith. Gweler **Atodiad B**

8. Camau Nesaf

- Derbyn sylwadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu ar y trefniadau presennol ar gyfer cynnal ac ail-osod marciau ffordd.
- Bwrw ymlaen i brynu ail becyn cyfarpar gosod â llaw er mwyn cynyddu gallu'r gwasanaeth a gwella amseroedd ymateb ar draws y sir.
- Parhau i weithio gyda'r contractwyr presennol i geisio gwella amserlenni cyflawni gwaith marcio ffordd lle bo hynny'n bosibl.
- Cwblhau'r achos busnes ar gyfer buddsoddi mewn cerbyd marcio ffordd bwrpasol, gan gynnwys asesiad o'r costau, manteision, risgiau a chyfleoedd posibl i gynhyrchu incwm.
- Cyflwyno cais Buddsoddi i Arbed i ystyried y buddsoddiad arfaethedig a'r manteision disgwyledig i'r gwasanaeth a thrigolion Gwynedd.
- Datblygu trefniadau monitro perfformiad i fesur llwyddiant unrhyw drefniadau newydd
- Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu ar gynnydd y cynllun a chanlyniadau'r trefniadau newydd maes o law.

Gwybodaeth Cefndir

- *Well-managed Highways Infrastructure : A Code of Practice (2016)*
- Deddf Priffyrdd 1980

Atodiadau

Atodiad A – Enghreifftiau o Farciau Ffordd

Atodiad B – Asesiad Effaith


Atodiad A – Enghreifftiau o'r marciau ffordd sydd angen eu cynnal ar ein ffyrdd

Llinellau melyn dwbl



Llinellau Gwyn





Atodiad B

Asesiad Effaith Cyfansawdd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010.** Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu haddasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
 - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
 - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
 - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi'r angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd warchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.
- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.
- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gyngorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd - Ail-osod llinellau ffordd

Awdur: Nia Wyn Vaughan (PP/YGC)

Teitl Swydd: Uwch Swyddog Prosiectau

Dyddiad: 18/08/2026

Fersiwn: Fersiwn 1

CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?

- Polisiâu, ymarfer neu weithdrefnau newydd neu rai sy'n cael eu hadolygu (sy'n golygu newid yn narpariaeth y gwasanaeth neu arferion cyflogaeth)

2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?

Ail edrych ar sut mae gwasanaeth cynnal priffyrdd yn darparu gosod ac ail-osod llinellau/marciau ar ein ffyrdd. Ar hyn o bryd caiff unrhyw waith mawr sydd angen peiriant pwrpasol i gwblhau'r gwaith ei ddarparu gan gontractwyr allanol. Gall hyn greu peth rhwystr i'r gwasanaeth gan mai

dim ond dau gwmni sydd yn darparu'r math yma o wasanaeth i Ogledd Cymru, ac felly yn naturiol mae cystadleuaeth amdanynt. Gall hyn achosi rhaglenni gwaith lithro neu i dargedau cwblhau diffygion diogelwch gael eu methu.

Y bwriad felly ydi creu cynllun busnes a chais am arian buddsoddi i arbed er mwyn gallu pwrcasu peiriant pwrpasol a darparu hyfforddiant i'r gweithlu.

Amcanion

- Lleihau dibyniaeth ar gontractwyr allanol fydd yn rhoi mwy o reolaeth i ni dros gwblhau ein rhaglenni gwaith
- Lleihau'r risg o hawliadau yswiriant 3ydd parti
- Lleihau cwynion gan y cyhoedd
- Datblygu sgiliau ein gweithlu
- Denu incwm drwy gynnig y gwasanaeth newydd i Awdurdodau Lleol cyfagos ac Asiantaeth Cefnffyrdd

3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?

- Staff y gwasanaeth
- Undebau gwaith
- Aelodau Etholedig
- Y Cyhoedd
- Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
- Awdurdodau Lleol cyfagos

CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?

Rhannol

Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud

Gweithrediad	Dyddiadau	Gwybodaeth
Derbyn cwynion am farciau ffordd gan y cyhoedd megis llinellau wedi pylu	Parhaus	Bydd y cwynion yn cael sylw gan yr Arolygwr Ffordd perthnasol ac yn cael sylw priodol

5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?

	Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol	Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol
Hil	Dim effaith wedi ei adnabod	Dim effaith wedi ei adnabod
Anabledd	Mae marciau ffordd clir ac wedi'u cynnal yn unol â safonau cenedlaethol yn cyfrannu at wella diogelwch ar y ffordd i bob defnyddiwr,	Effaith gadarnhaol Mae marciau ffordd clir ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda yn gwella diogelwch i bob

	gan gynnwys pobl ag anableddau corfforol, synhwyraidd a gwybyddol.	defnyddiwr ffordd, gan gynnwys pobl anabl sy'n cerdded, beicio neu yrru. - Gall marciau croesfannau amlwg helpu pobl â namau symudedd drwy nodi manau croesi diogel yn glir. - Mae marciau ffordd cyson a hawdd eu deall yn gallu cynorthwyo pobl ag anableddau dysgu, awtistiaeth neu namau gwybyddol drwy wneud llwybrau'n haws eu dilyn. - Gall marciau lonydd ac ymylon ffyrdd clir helpu gyrwyr ag anableddau penodol drwy wella eglurder y ffordd.
Rhyw	Dim effaith wedi ei adnabod	Dim effaith wedi ei adnabod
Oedran	Mae marciau ffordd clir ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda yn cyfrannu at ddiogelwch pob grŵp oedran. Gallent fod o fudd arbennig i blant, pobl ifanc sy'n dysgu defnyddio'r rhwydwaith ffyrdd yn annibynnol, a phobl hŷn a allai fod angen mwy o amser neu sicrwydd wrth groesi ffyrdd neu lywio'r amgylchedd traffig.	Effaith gadarnhaol Bydd marciau ffordd clir yn helpu i wella diogelwch a hygyrchedd i blant, pobl ifanc, oedolion a phobl hŷn fel ei gilydd, heb roi unrhyw grŵp oedran dan anfantais.
Crefydd a Chred	Dim effaith wedi ei adnabod	Dim effaith wedi ei adnabod
Cyfeiriadedd Rhywiol	Dim effaith wedi ei adnabod	Dim effaith wedi ei adnabod
Ail-bennu rhywedd	Dim effaith wedi ei adnabod	Dim effaith wedi ei adnabod
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Dim effaith wedi ei adnabod	Dim effaith wedi ei adnabod

Beichiogrwydd a Mamolaeth	Mae marciau ffordd clir ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda yn cyfrannu at wella diogelwch i bob defnyddiwr ffordd, gan gynnwys menywod beichiog a rhieni neu ofalwyr sy'n teithio gyda phramiau, cadeiriau gwthio neu blant ifanc. Gall croesfannau a marciau ffordd amlwg helpu i wella hyder a diogelwch wrth groesi ffyrdd, yn enwedig i'r rhai a allai symud yn arafach oherwydd beichiogrwydd neu gyfrifoldebau gofalu am blant bach.	Effaith Gadarnhaol Bydd marciau ffordd clir a gweladwy yn helpu i wella diogelwch ac yn hwyluso teithio i rieni a gofalwyr sy'n defnyddio pramiau neu'n teithio gyda phlant ifanc.
Iaith Gymraeg	Dim effaith wedi ei adnabod	Dim effaith wedi ei adnabod
Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol	Mae marciau ffordd clir ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda yn cyfrannu at rwydwaith trafnidiaeth fwy diogel ac effeithlon, gan fod o fudd i drigolion, busnesau ac ymwelwyr fel ei gilydd. Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol anghymesur ar unigolion neu gymunedau sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Yn hytrach, gall gwelliannau i ddiogelwch ffyrdd a threfniadaeth traffig helpu pobl i gael mynediad at gyflogaeth, addysg, gwasanaethau cyhoeddus a chyfleusterau cymunedol yn fwy diogel. Bydd unrhyw aflonyddwch dros dro yn ystod y gwaith yn cael ei leihau cymaint â phosibl drwy reoli traffig a chynllunio'r gwaith yn briodol.	Effaith gadarnhaol Bydd marciau ffordd clir yn cyfrannu at ddiogelwch a hygyrchedd gwell i bob defnyddiwr ffordd, heb greu rhwystrau ychwanegol i unigolion na chymunedau sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghyd a'u Teuluoedd	Dim effaith wedi ei adnabod	Dim effaith wedi ei adnabod
Hawliau Dynol	Dim effaith wedi ei adnabod	Dim effaith wedi ei adnabod
Arall	Dim effaith wedi ei adnabod	Dim effaith wedi ei adnabod

6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?

Dim wedi eu hadnabod

7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?

Dim wedi eu hadnabod

8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Gyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?

Mae'r cynllun yn cydymffurfio'n llawn â dyletswyddau cydraddoldeb y sector gyhoeddus, yn hyrwyddo cyfle cyfartal, ac yn meithrin perthnasau cadarnhaol rhwng grwpiau gwahanol o ddefnyddwyr a'r gymuned ehangach.

Mae'r cynllun yn cydymffurfio â dyletswyddau cydraddoldeb oherwydd ei fod yn darparu mynediad cyfartal i bawb.

Trwy ymgysylltu parhaus gyda rhanddeiliaid a chynnwys eu hanghenion yn y cynllun, mae'r cynllun yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn meithrin perthnasau cadarnhaol rhwng grwpiau gwahanol.

9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)

Dim wedi eu hadnabod

10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Nid oes disgwyl i'r cynnig gael effaith andwyol ar y Gymraeg nac ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Mae marciau ffordd yn elfen safonol o'r rhwydwaith priffyrdd ac maent yn cyfrannu at ddiogelwch ac eglurder i bob defnyddiwr ffordd.

Lle defnyddir unrhyw eiriau neu negeseuon ar y ffordd, byddant yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a pholisïau'r Cyngor mewn perthynas â'r Gymraeg, gan sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg.

Nid oes tystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn lleihau'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac yn cael effaith negyddol ar siaradwyr Cymraeg neu gymunedau Cymraeg eu hiaith.

I 1. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?

Mae'r cynllun yn ategu'r 7 nod cenedlaethol. Mae'n creu Cymru sy'n fwy cyfartal drwy ddarparu mynediad cyfartal i wasanaethau, ni waeth eu gallu corfforol, eu statws economaidd neu eu sgiliau iaith.

CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

I 2. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan contractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?

Na fydd

Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o ran caffael a / neu partneriaethau?

Caffael:

-

Partneriaeth:

-

CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

I3. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?

Effaith Gadarnhaol Sylweddol:

Mae cyfle yma i ddatblygu sgiliau ein staff fydd yn ein galluogi i gynnig gwell gwasanaeth i drigolion Gwynedd. Mae hefyd cyfle i greu incwm drwy gynnig y gwasanaeth i Awdurdodau Lleol cyfagos a'r Asiantaeth Cefnffyrdd.

Effaith Negyddol Sylweddol:

Ni ddangoswyd unrhyw dystiolaeth o effaith negyddol sylweddol o ganlyniad i'r polisi neu'r ymarfer. Mae'r cynllun yn cefnogi cyfle cyfartal, mynediad hygrych a chynhwysiant cymunedol, gan sicrhau bod grwpiau gwahanol yn gallu manteisio ar yr un gwasanaethau, gan leihau unrhyw effaith anfantais economaidd-gymdeithasol a hyrwyddo cydraddoldeb a chymuned fwy cynhwysol. Ystyrir bod effaith y cynllun yn gynhwysol a chadarnhaol, heb greu canlyniadau anghyfartal ar unrhyw grŵp o ddefnyddwyr.

14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol

Ddim yn berthnasol

15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorod (e.e. lleihau cyllid)?

Na fydd

Noder y rheswm dros ddweud hynny a'r cyfiawnhad dros barhau

Ddim yn berthnasol

16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?

Dim wedi ei adnabod ar y pwynt yma

17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?

Dim wedi eu hadnabod

18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Dim wedi eu hadnabod

19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?

Oes

CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:

Parhau â'r polisi neu'r ymarfer yn ei ffurf bresennol

CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisiâu/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu [Fframwaith Fesur](#)

21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:

Gweithrediad	Dyddiadau	Amserlen	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth
Ystyried yr asesiad effaith	Parhaus	Parhaus	Nia Vaughan	Na

22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:

Trefniadau Monitro ac Adolygu (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi)	Amserlen ac Amllder	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth
Creu mesur yn ein trefniadau Rheoli a Chefnogi Perfformiad	Chwarterol	Nia Vaughan	Ia

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Cymunedau
DYDDIAD	1 Hydref 2026
TEITL	Cau Ffyrdd mewn Argyfwng
RHESWM DROS GRAFFU	Sicrwydd bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli a chydlynu cau ffyrdd mewn amgylchiadau brys ac argyfwng.
AWDUR	Ceri Hughes Thomas, Rheolwr Parcio a Gwaith Stryd Gerwyn Jones, Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd
AELOD CABINET	Y Cynghorydd Craig Ab Iago

1. Pam fod angen ei graffu?

Mae cau ffyrdd mewn amgylchiadau brys ac argyfwng yn destun pryder cyhoeddus ac mae angen egluro rolau, cyfrifoldebau a threfniadau cyfathrebu.

2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

Effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor wrth gydlynu, monitro a chyfathrebu gwaith brys ac argyfwng.

3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

Mae'r adroddiad yn amlinellu cyfrifoldebau'r ymgwymerwyr statudol a'r Cyngor, y gwahaniaeth rhwng gwaith brys ac argyfwng, trefniadau cau ffyrdd, cyfathrebu a gwersi ar gyfer y dyfodol.

4. Cefndir / Cyd-destun

4.1. CYFLWYNIAD

4.1.1 Pwrpas yr adroddiad yw rhoi cefndir ac eglurhad ynghylch y ffordd y mae gwaith stryd yn cael ei reoli a'i gydlynu yng Ngwynedd. Mae'r gweithgareddau hyn yn gweithredu o fewn fframwaith cyfreithiol cenedlaethol, yn bennaf Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 a Deddf Rheoli Traffig 2004, ynghyd â chodau ymarfer a chanllawiau cenedlaethol perthnasol. Mae'r fframwaith hwn yn diffinio'r hawliau a'r cyfrifoldebau sydd gan ymgwymerwyr statudol a rôl y Cyngor wrth gydlynu a monitro gweithgareddau ar y rhwydwaith ffyrdd.

4.1.2 Er bod yr adroddiad yn cyfeirio at waith stryd yn gyffredinol, ei brif ffocws yw'r trefniadau sy'n ymwneud â chau ffyrdd a chyfyngiadau traffig mewn amgylchiadau brys neu argyfwng. Dyma'r sefyllfaoedd sydd fel arfer, oherwydd eu natur a'r diffyg rhybudd, yn cael yr effaith fwyaf uniongyrchol ar ddefnyddwyr y ffordd, cymunedau lleol a gwasanaethau cyhoeddus.

4.1.3 Mae gwaith brys ac argyfwng yn cyflwyno heriau unigryw gan fod angen gweithredu ar fyr rybudd ac nad yw union natur y broblem na chwmpas llawn y gwaith sydd ei angen bob amser yn glir gan ymgwymerwyr statudol (e.e. cwmnïau cyfleustodau) ar y dechrau. Mewn llawer o achosion, ni ellir cadarnhau lleoliad y diffyg na maint yr atgyweiriad sydd ei angen nes i'r gwaith tyllu ddechrau. Wrth i'r gwaith fynd ymlaen, gall gwybodaeth newydd ddod i'r amlwg a all olygu bod angen

addasu'r dull gweithio neu'r trefniadau traffig er mwyn cynnal diogelwch a chwblhau'r gwaith yn effeithiol.

- 4.1.4 O ganlyniad, gall trefniadau traffig, hyd y gwaith a llwybrau dargyfeirio newid wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Gall hyn olygu bod angen uwchraddio trefniadau rheoli traffig, newid trefniadau mynediad neu ymestyn cyfnod cau ffordd er mwyn cynnal diogelwch y gweithlu a defnyddwyr y ffordd.
- 4.1.5 Mae cau ffyrdd mewn amgylchiadau brys neu argyfwng yn aml yn peri pryder a rhwystredigaeth i drigolion, busnesau a defnyddwyr y ffordd yn gyffredinol. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion mae'r trefniadau hyn yn angenrheidiol er mwyn diogelu'r cyhoedd, gwneud safle'n ddiogel neu adfer gwasanaeth hanfodol cyn gynted â phosibl.
- 4.1.6 Mae'r adroddiad hwn yn egluro'r rôl sydd gan y Cyngor wrth gydlyn, monitro a herio trefniadau lle bo hynny'n briodol, ynghyd â'r cyfrifoldebau sydd gan ymgymrwyr statudol megis cwmnïau dŵr, nwy, trydan a thelathrebu wrth gyflawni gwaith ar y briffordd gyhoeddus.
- 4.1.7 Nod yr adroddiad yw rhoi dealltwriaeth glir o'r heriau sy'n gysylltiedig â rheoli gwaith brys ac argyfwng, y cydbwysedd sydd angen ei daro rhwng diogelwch ac aflonyddwch, a'r camau a gymerir gan y Cyngor i leihau'r effaith ar gymunedau lleol a'r rhwydwaith ffyrdd cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol.

4.2 TROSOLWG O WAITH STRYD

- 4.2.1 Mae gwaith stryd yn cyfeirio at waith a gyflawnir ar, uwchben neu o dan y briffordd gyhoeddus gan ymgymrwyr statudol a chyrff eraill sy'n gyfrifol am ddarparu a chynnal gwasanaethau hanfodol.
- 4.2.2 Gall y gwaith hwn gynnwys gosod, cynnal, atgyweirio neu adnewyddu seilwaith sy'n gysylltiedig â gwasanaethau megis trydan, nwy, dŵr, carthffosiaeth a thelathrebu.
- 4.2.3 Mae llawer o waith stryd yn cael ei gynllunio ymlaen llaw ac yn cael ei gydlyn gan wasanaeth gwaith stryd y Cyngor er mwyn lleihau'r effaith ar ddefnyddwyr y ffordd a'r cymunedau lleol. Fodd bynnag, gall rhai gwaith godi'n annisgwyl o ganlyniad i fethiannau neu ddifrod i seilwaith, megis pibell ddŵr yn byrstio, toriad cyflenwad trydan, damweiniau, neu ddifrod i geblau a allai beri risg i ddiogelwch y cyhoedd.
- 4.2.4 Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n bosib y bydd angen i'r ymgymwrwr weithredu ar frys er mwyn diogelu'r cyhoedd, atal niwed pellach i'r seilwaith neu adfer gwasanaeth hanfodol cyn gynted â phosibl.

4.3 TROSOLWG O GYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR A'R YMGYMERWYR STATUDOL

- 4.3.1 Mae'n bwysig deall y gwahaniaeth rhwng rôl y Cyngor a rôl yr ymgymrwyr statudol, fel cwmnïau dŵr, nwy, trydan a thelathrebu.
- 4.3.2 Mae gan yr ymgymrwyr hyn hawliau cyfreithiol i osod, cynnal, atgyweirio ac adnewyddu eu cyfarpar yn y briffordd. Oherwydd yr hawliau hyn, nid yw'n bosibl i'r Cyngor atal y gwaith rhag gael ei gyflawni nac ei gwneud yn ofynnol i'r cwmnïau dderbyn caniatâd gan y Cyngor cyn dechrau gwaith.

- 4.3.3 Mae hyn yn arbennig o berthnasol i waith brys neu argyfwng. Pan fydd diffyg neu broblem gyda gwasanaeth hanfodol, gall fod angen i'r ymgwymerwr ddechrau gwaith ar fyr rybudd er mwyn diogelu'r cyhoedd neu adfer y gwasanaeth cyn gynted â phosibl.
- 4.3.4 Mae'r ymgwymerwr yn gyfrifol am sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn ddiogel ac am ddarparu trefniadau rheoli traffig addas yn ystod y gwaith. Maent hefyd yn gyfrifol am leihau'r effaith ar ddefnyddwyr y ffordd lle bo hynny'n bosibl. Yn ymarferol, mae'r rhan fwyaf o ymgwymerwyr yn gweithio mewn partneriaeth â chwmnïau rheoli traffig arbenigol sydd â'r wybodaeth a'r cymwysterau perthnasol i asesu risgiau a dylunio trefniadau rheoli traffig sy'n addas ar gyfer y gwaith sy'n cael ei gynnal. Mae'r trefniadau hyn yn gallu amrywio o arwyddion dros dro a goleuadau traffig i gau ffordd yn llwyr, yn dibynnu ar natur a lleoliad y gwaith a'r risgiau cysylltiedig.
- 4.3.5 Er nad oes modd i'r Cyngor atal gwaith statudol rhag cael ei wneud, mae gennym ni rôl bwysig wrth gydlyn a monitro gweithgareddau ar y rhwydwaith ffyrdd sydd yn cynnwys rhannu gwybodaeth a cyfathrebu. Mae'r Cyngor yn gwirio bod yr ymgwymerwyr yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol, yn cynnal arolygiadau o safleoedd gwaith ac yn gallu cymryd camau pan nad yw'r safonau gofynnol yn cael eu bodloni.
- Fel rhan o'r broses gydlyn, mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda'r ymgwymerwyr i gynllunio gwaith ymlaen llaw er mwyn lleihau'r effaith ar y rhwydwaith. Gall hyn gynnwys gofyn i waith rhaglunedig gael ei ail-drefnu er mwyn osgoi gwrthdaro â gwaith arall yn yr un ardal, lleihau'r effaith ar ddigwyddiadau lleol, neu fanteisio ar gyfnodau tawelach o'r flwyddyn pan fydd llif traffig yn is. Mewn rhai achosion, gall y Cyngor hefyd ofyn i'r ymgwymerwr ystyried amseroedd gwaith gwahanol e.e. gyda'r nosau neu drefniadau amgen er mwyn lleihau'r aflonyddwch i ddefnyddwyr y ffordd a'r gymuned.
- 4.3.6 Mae gan yr ymgwymerwyr hefyd ddyletswydd i gydweithio â'r Cyngor drwy ddarparu gwybodaeth am eu gwaith a chyflwyno'r hysbysiadau angenrheidiol cyn gynted â phosibl.
- 4.3.7 Yn syml, cyfrifoldeb yr ymgwymerwr yw cynllunio, rheoli a chyflawni'r gwaith yn ddiogel, tra bod rôl y Cyngor yn canolbwyntio ar gydlyn, monitro a sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn unol â'r gofynion perthnasol ynghyd a chyfathrebu a diweddarau rhanddeiliaid ehangach.

4.4 GWYBODAETH BELLACH AM RÔL Y CYNGOR

- 4.4.1 Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel Awdurdod y Briffordd gyda'r rôl i gydlyn gwaith stryd a defnyddio'r pwerau sydd ar gael i leihau'r effaith ar ddefnyddwyr y ffordd, trigolion a busnesau cyn belled a sy'n rhesymol ymarferol.
- Mae'n bwysig nodi mai dim ond ar y rhwydwaith ffyrdd sirol a lleol y mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel Awdurdod Priffyrdd. Nid yw'r Cyngor yn gyfrifol am y cefnffyrdd yng Ngwynedd, sef yr **A55, A5, A487, A470 ac A494**, sydd o dan gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru a'i asiant cefnffyrdd.
- 4.4.2 Fel rhan o'r rôl gydlyn, mae'r Cyngor yn trafod unrhyw gyfleon i leihau effaith y gwaith ar ein cymunedau gyda'r ymgwymerwyr. Mae hyn yn cynnwys ystyried a oes gwir angen cau ffordd yn llwyr neu sgôp defnyddio trefniadau rheoli traffig amgen.

- 4.4.3 Mae'r Cyngor yn herio'r angen am gau ffordd yn gyfan gwbl gan ofyn i'r ymgwymerwr adolygu'r cynlluniau er mwyn lleihau hyd y gwaith. Mae hyn yn cynnwys gofyn i gontractwyr ymestyn eu horiau gwaith, gweithio gyda mwy o adnoddau ar y safle, neu gynnal gwaith dros benwythnosau er mwyn lleihau'r cyfnod y mae'r cyhoedd yn cael ei effeithio, yn enwedig mewn ardaloedd sydd yn draffig sensitif.
- 4.4.4 Fodd bynnag, mae'n rhaid sicrhau cydbwysedd priodol rhwng lleihau aflonyddwch a diogelu gweithluoedd sy'n gweithio ar y ffordd. Cyfrifoldeb yr ymgwymerwr yw asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwaith a dylunio'r trefniadau rheoli traffig angenrheidiol i ddiogelu ei weithwyr, defnyddwyr y ffordd a'r cyhoedd. Ni ddylid peryglu diogelwch er mwyn lleihau anghyfleustra, ond disgwylir i'r ymgwymerwr gyfiawnhau'r trefniadau y mae'n eu cynnig a dangos eu bod yn gymesur â natur y gwaith.
- 4.4.5 Mae hefyd yn bwysig nodi nad yw cwmipas llawn rhai o'r gweithiau bob amser yn hysbys nes bod y gwaith wedi dechrau. Yn aml, mae'n anodd cadarnhau union leoliad na maint diffyg mewn pibell, cebl neu gyfarpar tanddaearol nes i'r cwmni gychwyn tyllu. O ganlyniad, gall amgylchiadau newid wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Er enghraifft, gall gwaith a ragwelwyd yn wreiddiol ar ymyl y ffordd ymestyn yn nes at ganol y ffordd, gan olygu nad yw'r trefniadau rheoli traffig cychwynnol bellach yn addas. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, efallai y bydd angen uwchraddio'r trefniadau o oleuadau traffig dros dro i gau'r ffordd yn llwyr er mwyn cynnal safonau diogelwch priodol i'r gweithlu a defnyddwyr y ffordd.
- 4.4.6 Er y gall newidiadau o'r fath achosi rhwystredigaeth i'r cyhoedd, maent yn aml yn adlewyrchu'r wybodaeth newydd a ddaw i'r amlwg wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Yn yr achosion hyn, mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r ymgwymerwr i sicrhau bod unrhyw gyfyngiadau ychwanegol yn gymesur â'r risgiau a bod hyd yr aflonyddwch yn cael ei gadw mor fyr â phosibl.
- 4.4.7 Er bod adnoddau'n gyfyngedig, gyda thri arolygydd gwaith stryd yn gyfrifol am Wynedd yn ei chyfanrwydd, caiff pob ymdrech ei gwneud i fonitro gwaith ar y rhwydwaith. Oherwydd maint y sir a nifer y safleoedd sy'n weithredol ar unrhyw adeg, nid yw'n bosibl bod yn bresennol ar bob safle drwy'r amser. Fodd bynnag, rhoddir blaenoriaeth i waith sydd â'r effaith fwyaf ar y cyhoedd, yn enwedig gwaith brys sy'n arwain at gau prif ffyrdd neu sy'n achosi aflonyddwch sylweddol i'r rhwydwaith traffig.
- 4.4.8 Mae presenoldeb arolygwyr ar safleoedd o'r fath yn galluogi'r Cyngor i fonitro cynnydd y gwaith, herio trefniadau lle bo angen a sicrhau bod gwybodaeth gyfredol ar gael. Mae hyn hefyd yn bwysig er mwyn darparu diweddariadau cywir i'r cydlynwyr gwaith stryd yn y swyddfa, sy'n derbyn ymholiadau gan aelodau etholedig, cynghorau cymuned, gwasanaethau brys a'r cyhoedd ynghylch statws a chynnydd gwaith stryd ar draws y sir.
- 4.4.9 Er nad oes gan y Cyngor bŵer i atal gwaith statudol na gwaith brys sy'n cael ei gynnal yn unol â hawliau cyfreithiol yr ymgwymerwr, mae ganddo rôl bwysig wrth ddwyn her adeiladol, cydlynu gweithgareddau a cheisio sicrhau bod effaith y gwaith ar y rhwydwaith ffyrdd a chymunedau lleol yn cael ei lleihau gymaint â phosibl.

4.5 GWAITH ARGYFWNG A GWAITH BRYD

- 4.5.1 Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng gwaith brys a gwaith argyfwng, gan fod y ddau'n cael eu trin yn wahanol o dan y ddeddfwriaeth gwaith stryd.
- 4.5.2 Gwaith argyfwng yw gwaith sy'n rhaid cael ei ddechrau ar unwaith oherwydd perygl difrifol i bobl neu eiddo, neu i atal colled sylweddol i wasanaeth hanfodol. Enghreifftiau fyddai prif bibell ddŵr wedi byrstio, gollyngiad nwy, cebl trydan peryglus, neu sefyllfa lle mae nifer sylweddol o gwsmeriaid heb wasanaeth hanfodol. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig pan fo pobl mewn categorïau bregus yn cael eu heffeithio, megis pobl oedrannus, unigolion â chyflyrau meddygol, neu gwsmeriaid sydd ar gofrestr gwasanaethau blaenoriaeth ac sy'n dibynnu ar gyflenwad parhaus o ddŵr, nwy neu drydan. Yn yr achosion hyn, mae'r angen i adfer y gwasanaeth yn gyflym yn ffactor allweddol wrth benderfynu bod y gwaith yn waith argyfwng.
- 4.5.3 Gwaith brys, ar y llaw arall, yw gwaith sy'n gofyn am sylw cyflym ond nad yw'n cwrdd â'r trothwy ar gyfer argyfwng uniongyrchol. Er enghraifft, gall canfod diffyg ar gyfarpar a allai arwain at fethiant gwasanaeth os na chaiff sylw prydlon fod yn waith brys. Fel arfer, bydd yr ymgwymerwr yn rhoi hysbysiad byr i'r Cyngor cyn dechrau'r gwaith, ond nid oes angen yr un ymateb ar unwaith ag sydd ei angen mewn sefyllfa argyfwng.
- 4.5.4 Yn ymarferol, gall y ddau fath o waith gael effaith sylweddol ar y rhwydwaith ffyrdd ac ar gymunedau lleol. Fodd bynnag, mae gwaith argyfwng yn aml yn rhoi llai o gyfle i gynllunio ymlaen llaw, trafod trefniadau traffig neu roi rhybudd i'r cyhoedd. O ganlyniad, gall fod angen gwneud penderfyniadau a gweithredu ar fyr rybudd iawn.
- 4.5.5 Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r ymgwymerwyr yn y ddau achos i leihau'r effaith ar ddefnyddwyr y ffordd cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol. Fodd bynnag, pan fo sefyllfa argyfwng yn ymwneud â diogelwch y cyhoedd neu barhad gwasanaeth hanfodol, bydd angen rhoi blaenoriaeth i ddatrys y broblem a sicrhau diogelwch cyn y gellir ystyried cyfleustra neu aflonyddwch i'r rhwydwaith.

4.6 GWAITH BRYD, GWAITH ARGYFWNG A CHAU FFYRDD

- 4.6.1 Mae gwaith sydd wedi'i gynllunio ymlaen llaw yn rhoi cyfle i'r Cyngor a'r ymgwymerwr drafod y trefniadau ymlaen llaw, ystyried yr effaith ar y rhwydwaith ffyrdd a rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd cyn i'r gwaith ddechrau.
- 4.6.2 Pan fo gwaith sydd wedi'i raglennu yn golygu cau ffordd, mae proses statudol ffurfiol yn cael ei ddilyn. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol megis y gwasanaethau brys, gweithredwyr cludiant cyhoeddus neu addysg, gwasanaethau casglu gwastraff, aelodau lleol, cynghorau tref a chymuned ac eraill y gallai'r gwaith effeithio arnynt. Mae'r broses hon yn rhoi cyfle i ystyried sylwadau a rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r cyhoedd.
- 4.6.3 Pan fydd angen cau ffordd mewn argyfwng, nid oes modd cynnal yr un broses ymgynghori ffurfiol ymlaen llaw ag sydd ar gael ar gyfer gwaith sydd wedi'i raglennu. Y flaenoriaeth yw sicrhau diogelwch y cyhoedd ac adfer y gwasanaeth cyn gynted â phosibl. Serch hynny, pan fydd y Cyngor yn cael gwybod am y sefyllfa, gwneir pob ymdrech i hysbysu rhanddeiliaid perthnasol cyn gynted â phosibl a darparu gwybodaeth am y sefyllfa, y llwybrau amgen a chynnydd y gwaith.

- 4.6.4 Yn ystod sefyllfaoedd o'r fath, mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r ymgymwrwr i fonitro cynnydd y gwaith, herio trefniadau lle bo hynny'n briodol a cheisio lleihau'r effaith ar gymunedau lleol. Fodd bynnag, yr ymgymwrwr sy'n gyfrifol am bennu'r dull gweithio, asesu'r risgiau a darparu'r trefniadau rheoli traffig angenrheidiol i ddiogelu ei weithwyr a defnyddwyr y ffordd.
- 4.6.5 Dyna pam y gall gwaith brys ac argyfwng fod yn arbennig o heriol i'r Cyngor, defnyddwyr y ffordd a chymunedau lleol. Er y gwneir pob ymdrech i roi gwybodaeth gyfredol a lleihau aflonyddwch, gall amgylchiadau newid yn gyflym wrth i'r gwaith ddatblygu a rhagor o wybodaeth ddod i'r amlwg. Yn yr achosion hyn, mae'n rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng adfer gwasanaeth hanfodol neu ddiogelu'r cyhoedd cyn gynted â phosibl, a chadw effaith y gwaith ar y gymuned a'r rhwydwaith ffyrdd mor isel â phosibl.
- 4.6.6 Mae'n rhaid i unrhyw waith ar y stryd, gan gynnwys gwaith brys ac argyfwng, gydymffurfio a Cod Ymarfer 'Diogelwch a Gwaith Stryd a Gwaith Ffyrdd' a gofynion perthnasol Pennod 8 y Llawlyfr Arwyddion Traffig. Cyfrifoldeb yr ymgymwrwr a'i gontractwr rheoli traffig yw sicrhau bod trefniadau traffig a mesurau diogelwch yn cydymffurfio â'r gofynion hyn. Mae rôl y Cyngor yn cynnwys monitro ac arolygu safleoedd gwaith, herio trefniadau pan fo hynny'n briodol, a chymryd camau pan geir tystiolaeth nad yw'r safonau gofynnol yn cael eu bodloni.
- 4.6.7 Pan fo digwyddiad brys neu argyfwng yn digwydd, yr ymgymwrwr statudol sy'n gyfrifol am asesu'r sefyllfa, gwerthuso'r risgiau i'r cyhoedd a'r gweithlu, a phenderfynu ar y dull gweithio mwyaf priodol. Wrth wneud penderfyniad ynghylch cau ffordd, ystyrir natur y diffyg, lleoliad y gwaith, lled y ffordd, gwelededd, diogelwch, opsiynau rheoli traffig amgen a'r angen i adfer gwasanaeth hanfodol cyn gynted â phosibl.
- 4.6.8 Gall gwaith brys neu argyfwng godi mewn unrhyw leoliad ac ar unrhyw adeg, ac mewn rhai achosion gall hyn effeithio ar ffyrdd sy'n sensitif o safbwynt traffig neu gymunedau lle mae nifer gyfyngedig o lwybrau amgen ar gael. O ganlyniad, gall fod angen gweithredu trefniadau traffig sydd yn cael effaith sylweddol ar ddefnyddwyr y ffordd, gan gynnwys llwybrau dargyfeirio hirach nag a fyddai fel arfer yn ddymunol.

Mewn amgylchiadau o'r fath, disgwylir i'r ymgymwrwr a'i gontractwyr roi ystyriaeth lawn i effaith y gwaith ar y gymuned, defnyddwyr y ffordd a gwasanaethau lleol. Fodd bynnag, rhaid sicrhau bod unrhyw drefniadau a gyflwynir yn gyntaf oll yn ddiogel i'r cyhoedd, defnyddwyr y ffordd a'r gweithlu sy'n gweithio ar y safle.

Bydd y Cyngor, fel rhan o'i rôl gydlyn, yn trafod ac yn herio trefniadau lle bo hynny'n briodol er mwyn sicrhau bod yr effaith ar y gymuned a'r rhwydwaith ffyrdd yn cael ei lleihau cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol.

Mae profiadau diweddar wedi dangos yr heriau ymarferol sy'n gallu codi mewn sefyllfaoedd o'r fath. Er enghraifft, yn ystod digwyddiad brys ger Abermaw lle'r oedd angen adfer cyflenwad trydan i gartrefi cyn gynted â phosibl, bu angen cyflwyno trefniadau traffig ar rwydwaith oedd eisoes yn cael ei effeithio gan waith arall yn yr ardal. Wedi i'r Cyngor gael gwybod am y sefyllfa, mynychodd swyddogion profiadol y safle er mwyn monitro'r sefyllfa, trafod trefniadau gyda'r ymgymwrwr a cheisio sicrhau bod gwybodaeth gyfredol yn cael ei rhannu gyda rhanddeiliaid cyn gynted ag yr oedd

hynny'n ymarferol. Fel mewn llawer o sefyllfaoedd brys, datblygodd y sefyllfa wrth i ragor o wybodaeth ddod i'r amlwg ac roedd hyn yn cyflwyno heriau o ran darparu diweddariadau amserol a chyson.

- 4.6.9 Lle bo'n ddiogel ac yn ymarferol, disgwylir cynnal mynediad i eiddo, busnesau a chyfleusterau cymunedol. Rhoddir ystyriaeth hefyd i gerddwyr, defnyddwyr anabl, pobl fregus a gwasanaethau brys.

4.7 CYFATHREBU A RHEOLI TRAFFIG

- 4.7.1 Pan fo angen cau ffordd neu gyflwyno cyfyngiadau traffig, mae'n bwysig bod y trefniadau mor glir, diogel ac effeithiol â phosibl.
- 4.7.2 Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod arwyddion yn cael eu gosod yn y lleoliadau cywir, eu bod yn hawdd eu deall, a bod llwybrau amgen, lle bo hynny'n bosibl, yn cael eu nodi'n glir i helpu defnyddwyr y ffordd i gynllunio eu teithiau.
- 4.7.3 Fodd bynnag, mae rheoli traffig yn ymwneud â llawer mwy na darparu arwyddion yn unig. Mae angen ystyried anghenion preswylwyr, busnesau lleol, cerddwyr, beicwyr, pobl fregus, gwasanaethau brys a gweithredwyr cludiant cyhoeddus a addysg. Lle bo hynny'n ddiogel ac yn ymarferol, dylid hefyd ystyried sut y gellir cynnal mynediad i eiddo, busnesau, ysgolion a chyfleusterau cymunedol.
- 4.7.4 Yr ymgymrwyr sy'n gyfrifol am ddarparu, cynnal ac addasu'r trefniadau rheoli traffig sy'n gysylltiedig a'r gweithiau.
- 4.7.5 Er nad yw'r Cyngor yn gyfrifol am lunio'r trefniadau rheoli traffig, mae ganddo rôl bwysig wrth eu hadolygu a'u herio lle bo hynny'n briodol. Er enghraifft, gall y Cyngor ofyn i arwyddion gael eu hail-leoli, i wybodaeth gael ei gwneud yn gliriach, neu i ddisgrifiadau ar arwyddion a llwybrau dargyfeirio gael eu haddasu i weddu'n lleol. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig neu mewn cymunedau lle mae mynediad i wasanaethau ac eiddo yn dibynnu ar nifer cyfyngedig o lwybrau.
- 4.7.6 Gall llwybrau dargyfeirio ymddangos yn hir o bryd i'w gilydd. Y rheswm am hyn yw bod yn rhaid ystyried diogelwch a gallu'r ffordd i dderbyn traffig ychwanegol, ac fel arfer bydd traffig yn cael ei gyfeirio ar hyd ffyrdd sydd o safon debyg i'r ffordd sydd wedi cau. Er bod trigolion lleol yn aml yn gwybod am lwybrau byrrach, rhaid i'r llwybr dargyfeirio swyddogol fod yn addas ar gyfer pob math o ddefnyddiwr ffordd, gan gynnwys cerbydau mawr a thraffig sy'n anghyfarwydd â'r ardal.
- 4.7.7 Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda'r ymgymrwyr i sicrhau bod gwybodaeth gyfredol yn cael ei rhannu â rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys gwasanaethau brys, cwmnïau cludiant cyhoeddus, ysgolion, gwasanaethau casglu gwastraff, aelodau lleol a chynghorau tref a chymuned.
- 4.7.8 Pan fo'r trefniadau'n newid, mae'n bwysig bod yr arwyddion ar y safle a'r wybodaeth sy'n cael ei darparu i'r cyhoedd yn cael eu diweddarw cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, gall hyn fod yn heriol yn ystod gwaith brys neu argyfwng, lle gall natur y gwaith newid o ddydd i ddydd, neu hyd yn oed o awr i awr.

- 4.7.9 Er enghraifft, ac fel y soniwyd yn flaenorol, gall gwaith ddechrau gyda threfniadau traffig cymharol syml, ond wrth i dyllu fynd rhagddo gall ddod yn amlwg bod y diffyg yn fwy cymhleth nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Mewn amgylchiadau o'r fath, efallai y bydd angen newid y trefniadau traffig, diwygio llwybrau dargyfeirio neu ymestyn cyfnod cau'r ffordd. Gall hyn greu her wrth sicrhau bod yr holl randdeiliaid, yn cynnwys aelodau lleol a'r cyhoedd yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf mor gyflym â phosibl.

Yn ffodus, mae technoleg a chyfryngau cyfathrebu modern yn rhoi cyfleoedd gwell nag erioed i rannu gwybodaeth yn gyflym. Mae'r Cyngor a'r ymgymerydd yn gallu defnyddio cyfryngau cymdeithasol, gwefannau a sianeli cyfathrebu eraill i ddarparu diweddariadau rheolaidd am gynnydd y gwaith, unrhyw newidiadau i'r trefniadau traffig a'r amserlenni disgwylidig.

- 4.7.10 Am y rheswm hwn, mae cyfathrebu effeithiol rhwng yr ymgymerydd, y Cyngor a rhanddeiliaid allweddol yn rhan hanfodol o reoli gwaith stryd. Er mai'r ymgymerydd sy'n gyfrifol am y trefniadau traffig, mae'r Cyngor yn defnyddio ei wybodaeth leol a'i rôl gydlynu i helpu sicrhau bod y trefniadau a'r wybodaeth sy'n cael eu darparu i'r cyhoedd mor glir, priodol a chymesur â phosibl. Nod hyn yw lleihau'r effaith ar gymunedau lleol tra'n cynnal safonau uchel o ddiogelwch i weithwyr a defnyddwyr y ffordd.

Fodd bynnag, mae hyn yn gallu bod yn heriol mewn achosion brys ac argyfwng lle mae'r sefyllfa'n datblygu'n gyflym. Wrth i wybodaeth newydd ddod i'r amlwg, gall amserlenni, trefniadau traffig neu ddyddiadau gorffen newid. Yn y gorffennol, mae hyn wedi arwain at sefyllfaoedd lle mae negeseuon gwahanol neu ddiweddariadau amrywiol wedi cael eu rhannu ar adegau gwahanol, gan achosi dryswch neu ansicrwydd i'r cyhoedd a rhanddeiliaid.

Mae'r Cyngor a'r ymgymerydd yn cydnabod yr her hon ac yn gweithio'n barhaus i wella trefniadau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth gan fod hyn, a lliniaru aflonyddwch cyn belled a sydd yn ymarferol a rhesymol bosibl, yn nod sydd wedi ei rannu. Mae hyn yn cynnwys cryfhau'r llinf gwybodaeth rhwng safleoedd gwaith a'r swyddfa gefn, defnyddio cyfryngau cymdeithasol a sianeli cyfathrebu eraill yn fwy effeithiol, a cheisio darparu negeseuon mwy cyson a chyfredol wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Er na fydd yn bosibl bob amser osgoi newidiadau i wybodaeth mewn sefyllfaoedd sy'n datblygu'n gyflym, y nod yw sicrhau bod y cyhoedd yn derbyn y wybodaeth fwyaf cywir sydd ar gael ar unrhyw adeg.

4.8 GWELLA PARHAUS

- 4.8.1 Mae gwahanol brofiadau dros y blynyddoedd wedi dangos bod gwaith brys ac argyfwng yn gallu rhoi pwysau sylweddol ar y trefniadau arferol ar gyfer rheoli traffig, cyfathrebu a chydlynu gweithgareddau ar y rhwydwaith ffyrdd.
- 4.8.2 Er bod llawer o'r heriau hyn yn anochel oherwydd natur y gwaith, mae pob digwyddiad yn cynnig cyfle i adolygu trefniadau a nodi meysydd lle gellir gwneud gwelliannau. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo digwyddiadau'n arwain at gau ffyrdd am gyfnod estynedig neu'n cael effaith sylweddol ar gymunedau lleol.
- 4.8.3 Mae'n bwysig cydnabod nad oes unrhyw ddigwyddiad brys neu argyfwng yn debygol o gael ei reoli'n berffaith. Mae penderfyniadau'n aml yn gorfod cael eu gwneud yn gyflym, gyda gwybodaeth anghyflawn ac o dan amgylchiadau sy'n gallu newid yn gyson wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, mae'n anochel y bydd heriau yn codi o bryd i'w gilydd o ran rheoli traffig, darparu gwybodaeth amserol neu ateb disgwyliadau pob rhan o'r gymuned.

- 4.8.4 Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod y Cyngor yn gweithredu o fewn adnoddau cyfyngedig, gyda thîm cymharol fach. Er gwaethaf hyn, gwneir pob ymdrech i fod yn bresennol ar y safleoedd sy'n cael yr effaith fwyaf ar y rhwydwaith, yn enwedig pan fo gwaith brys neu argyfwng yn arwain at gau prif ffyrdd neu darfu'n sylweddol ar gymunedau lleol.
- 4.8.5 Mae aelodau lleol yn aml yn chwarae rôl bwysig wrth dynnu sylw at effeithiau lleol, rhannu gwybodaeth gyda chymunedau ac adnabod materion ymarferol a allai beidio â bod yn amlwg i sefydliadau sy'n gweithredu ar draws ardal ehangach.
- 4.8.6 Mae'n rhaid cydnabod hefyd nad yw'n bosibl i'r swyddogion bod ym mhob man ar yr un pryd. Pe bai nifer o ddigwyddiadau brys neu argyfwng yn digwydd ar draws Gwynedd ar yr un adeg, byddai'n rhaid i'r Cyngor flaenoriaethu'r safleoedd sy'n peri'r risg fwyaf i ddiogelwch y cyhoedd neu sy'n cael yr effaith fwyaf ar y rhwydwaith ffyrdd.
- 4.8.7 Mae profiadau amrywiol hefyd wedi amlygu pwysigrwydd cyfathrebu clir a chyson. Mewn digwyddiadau mawr sy'n datblygu'n gyflym, gall gwybodaeth newid wrth i fwy o fanylion ddod i'r amlwg. Weithiau gall hyn olygu bod negeseuon gwahanol yn cael eu rhannu ar adegau gwahanol gan wahanol asiantaethau neu randdeiliaid. Er bod hyn yn aml yn adlewyrchu natur esblygol y sefyllfa yn hytrach na chamgymeriad, mae'n gallu achosi dryswch a rhwystredigaeth i'r cyhoedd. O ganlyniad, mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid i gryfhau trefniadau cyfathrebu, gwella llif gwybodaeth a sicrhau bod negeseuon mor gyson a chyfredol â phosibl.
- 4.8.8 Er na fydd yn bosibl dileu pob aflonyddwch nac osgoi pob her sy'n gysylltiedig â gwaith brys ac argyfwng, y nod yw dysgu o bob digwyddiad a gwella'n barhaus. Trwy gydweithio'n agos ag ymgymerwyr statudol, gwasanaethau cyhoeddus, aelodau lleol a chymunedau, gall y Cyngor geisio sicrhau bod digwyddiadau yn y dyfodol yn cael eu rheoli mor effeithiol â phosibl, gan gydbwysu anghenion y gymuned â'r angen i ddiogelu'r cyhoedd ac adfer gwasanaethau hanfodol.
- 4.8.9 Mae amseriad digwyddiadau brys ac argyfwng yn gallu dylanwadu ar gyflymder yr ymateb a'r wybodaeth sydd ar gael. Pan fo digwyddiadau'n codi y tu allan i oriau gwaith arferol, dros benwythnosau neu yn ystod gwyliau cyhoeddus, gall gymryd mwy o amser i gasglu gwybodaeth ac ymgysylltu â'r rhanddeiliaid perthnasol. Serch hynny, gwneir pob ymdrech i ddarparu diweddariadau a chefnogaeth cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

4.9 CASGLIAD

- 4.9.1 Mae gwaith stryd yn rhan hanfodol o gynnal a gwella'r gwasanaethau y mae trigolion, busnesau a sefydliadau cyhoeddus yn dibynnu arnynt bob dydd. Er bod y gwaith hwn yn angenrheidiol, mae'n anochel y bydd yn achosi rhywfaint o aflonyddwch o bryd i'w gilydd, yn enwedig pan fo gwaith brys neu argyfwng yn golygu bod angen cyflwyno cyfyngiadau traffig neu gau ffyrdd ar fyr rybudd.
- 4.9.2 Mae'r adroddiad hwn wedi amlygu bod gan ymgymerwyr statudol hawliau penodol i gyflawni gwaith ar y briffordd gyhoeddus, ond bod ganddynt hefyd gyfrifoldeb am gynllunio a chyflawni'r gwaith yn ddiogel, darparu trefniadau rheoli traffig addas a chydweithredu â'r Cyngor a rhanddeiliaid perthnasol.
- 4.9.3 Er nad yw'r Cyngor yn gallu atal gwaith statudol rhag gael eu cyflawni, mae gennym rôl bwysig wrth gydlynw gweithgareddau, monitro safleoedd, herio trefniadau lle bo hynny'n briodol a cheisio lleihau'r effaith ar gymunedau lleol a defnyddwyr y ffordd.

- 4.9.4 Mae hefyd yn bwysig cydnabod nad yw sefyllfaoedd brys nac argyfwng byth yn syml. Yn aml, mae penderfyniadau'n gorfod cael eu gwneud yn gyflym, gyda gwybodaeth anghyflawn ac o dan amgylchiadau sy'n gallu newid yn sylweddol wrth i'r gwaith ddatblygu. O ganlyniad, nid oes unrhyw ddigwyddiad o'r fath yn debygol o gael ei reoli'n berffaith, ac mae'n anochel y bydd heriau'n codi o bryd i'w gilydd o ran cyfathrebu, rheoli traffig neu ddisgwyliadau'r cyhoedd.
- 4.9.5 Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r Cyngor yn parhau i wneud ei orau o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n agos gydag ymgymeryddwyr statudol, gwasanaethau brys, darparwyr trafniadaeth gyhoeddus, aelodau lleol, cynghorau tref a chymuned a rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu mor effeithiol â phosibl a bod effaith gwaith stryd yn cael ei lleihau lle bo modd.
- 4.9.6 Mae'r profiadau sydd yn deillio o sefyllfaoedd brys ac argyfwng wedi darparu gwersi gwerthfawr a chyfle i adolygu trefniadau presennol. Trwy adeiladu ar y profiadau hynny, cryfhau trefniadau cyfathrebu a pharhau i gydweithio'n agos â'n partneriaid, gallwn wella ymhellach y ffordd y mae digwyddiadau tebyg yn cael eu rheoli yn y dyfodol.
- 4.9.7 Yn y pen draw, y nod yw sicrhau cydbwysedd rhwng dau beth pwysig:
- diogelu'r cyhoedd a chynnal gwasanaethau hanfodol
 - lleihau'r effaith ar gymunedau lleol, busnesau a defnyddwyr y ffordd

Er na fydd y cydbwysedd hwn bob amser yn hawdd i'w gyflawni, mae'n parhau i fod yn ganolbwynt i waith y Cyngor a'i bartneriaid wrth reoli gwaith stryd ar draws Gwynedd. Er na fydd pob penderfyniad yn bodloni pawb bob amser, bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio'r pwerau, y wybodaeth leol a'r adnoddau sydd ar gael iddo i sicrhau bod gwaith brys ac argyfwng yn cael ei reoli mor ddiogel ac effeithiol â phosibl.

5. Ymgynghori

Paratowyd yr adroddiad gan Wasanaeth Gwaith Stryd yr Adran Amgylchedd gan ystyried profiadau gweithredol diweddar a thrafodaethau parhaus gydag ymgymeryddwyr statudol a rhanddeiliaid perthnasol.

6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r trefniadau'n hyrwyddo cydweithio, atal problemau lle bo modd, a sicrhau bod anghenion cymunedau a defnyddwyr y ffordd yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau.

7. Effaith ar Gydraddoldeb, y Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Mae'r adroddiad yn cydnabod yr angen i ystyried pobl fregus, mynediad at wasanaethau a chyfathrebu gwybodaeth yn ddwyieithog.

8. Camau Nesaf

Ystyried sylwadau'r Pwyllgor Craffu a pharhau i gryfhau trefniadau cyfathrebu, cydlynu a monitro mewn perthynas â gwaith brys ac argyfwng.

Eitem 8

CYFARFOD	PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU
DYDDIAD	1 Hydref 2026
TEITL	Blaenraglen Pwyllgor Craffu Cymunedau 2026/27
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 i'w mabwysiadu
AWDUR	Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu

1. Rhoddwyd cyfle i holl aelodau'r Cyngor, aelodau cyfetholedig, Aelodau Cabinet, Penaethiaid Adran a'r cyhoedd i awgrymu eitemau posib i'w craffu yn ystod 2026/27.
2. Yng ngweithdy blynyddol y Pwyllgor ar 19 Mai 2026, ystyriwyd yr eitemau posib i'w craffu yn ystod 2026/27.
3. Darparwyd gwybodaeth am yr eitemau posib ymlaen llaw i aelodau'r pwyllgor. Roedd y rhestr o eitemau yn cynnwys:
 - eitemau oedd wedi eu hawgrymu yng nghyfarfodydd cyswllt y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gyda'r Penaethiaid Adran a'r Aelodau Cabinet perthnasol.
 - eitemau a graffwyd a oedd angen dilyniant.
 - eitem a awgrymwyd fel eitem posib gan aelod o'r pwyllgor.
4. Blaenoriaethwyd eitemau yn y gweithdy gan gadw mewn cof pwrpas craffu yng Ngwynedd, sef:

CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

5. Gofynnwyd i aelodau ystyried y ffactorau canlynol wrth flaenoriaethu eitemau:
 - ❖ *A yw'r mater yn effeithio trigolion Gwynedd?*
 - ❖ *A yw craffu yn gallu gwneud gwahaniaeth / cael dylanwad? (pobl / gwasanaeth / perfformiad)*
 - ❖ *A yw'r mater yn amserol i'w graffu?*
 - ❖ *Ydi'r mater yn flaenoriaeth i'r Cyngor?*
 - ❖ *A ydym yn glir beth ydym yn ceisio ei wella?*
6. Blaenoriaethwyd uchafswm o dair eitem fesul cyfarfod er mwyn sicrhau bod sylw teilwng yn cael ei roi i faterion a bod craffu yn gallu ychwanegu gwerth.
7. Yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor ar 9 Gorffennaf 2026, rhoddwyd ystyriaeth i addasiadau o ran pryd fyddai'n amserol i graffu eitemau ynghyd â chais aelod o'r pwyllgor i graffu 'Cau ffordd mewn argyfwng' ac ystyried nodi 'Gwasanaeth Profedigaeth' fel eitem wrth gefn.
8. Cytunwyd i'r addasiadau ac i ychwanegu'r eitemau i'r flaenraglen ddrafft. Gweler ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad, rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor.
9. Mae'r blaenraglen craffu yn rhaglen fyw a fydd yn cael ei adolygu yn gyson yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod y materion cywir yn cael sylw. Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethu materion a fydd yn codi yn ystod y flwyddyn e.e. materion yn codi wrth graffu perfformiad ac eitemau ar flaenraglen y Cabinet.
10. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau fabwysiadu'r rhaglen waith ar gyfer 2026/27.**

BLAENRAGLEN DDRAFFT PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2026/27

Dyddiad	Eitemau	Rheswm dros graffu
11/6/26	• Erthygl 4	Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Glyd
	• Adroddiad Perfformiad Amgylchedd	Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor
	• Adroddiad Perfformiad Priffyrdd, Peirianeg a Ymgynghoriaeth Gwynedd	Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor
1/10/26	• Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2025/26	Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd
	• Cynnal Priffyrdd – Gosod Marciau Ffordd	Adolygiad o drefniadau
	• Cau ffordd mewn argyfwng	Sicrwydd bod trefniadau priodol ar waith
19/11/26	• Cynllun Datblygu Lleol – Dewisiadau Strategol, Gweledigaeth ag Amcanion	Rôl i graffu'r Cynllun Datblygu Lleol / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd
	• Adroddiad Perfformiad Amgylchedd	Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor
	• Adroddiad Perfformiad Priffyrdd, Peirianeg a Ymgynghoriaeth Gwynedd	Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor
28/1/27	• Gwasanaeth Edrychiad Stryd	Dilyniant / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd
	• Toiledau Cyhoeddus	Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 20 Mawrth 2025
	• Cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan	Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd
18/3/27	• Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn	Rôl y Pwyllgor fel Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn
	• Adroddiad Cynnydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn	Rôl y Pwyllgor i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
	• Rheolaeth sŵn, llygredd a niwsans statudol	Sicrwydd o ran trefniadau

Eitem 9

CYFARFOD	PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU
DYDDIAD	1 Hydref 2026
TEITL	Cyfarfodydd Herio Perfformiad
PWRPAS YR ADRODDIAD	I enwebu cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad
AWDUR	Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu

1. Mae cyfarfodydd herio perfformiad mewnol yn cael eu cynnal bedair gwaith y flwyddyn, fesul maes gwaith adrannau'r Cyngor. Ystyrir diweddariad ar y prosiectau blaenoriaeth sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor, mesurau perfformiad 'dydd i ddydd' ynghyd â'r gofrestr risg.
2. Yn dilyn galwadau gan y Fforwm Craffu ac aelodau'r pwyllgorau craffu mae bwriad i beilota gwadd dau gynrychiolydd o bob pwyllgor craffu i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad mewnol un adran. Bydd disgwyl i'r cynrychiolwyr adrodd yn ôl yn ffurfiol i'w pwyllgor neu'r cyfarfod anffurfiol ar yr hyn a drafodwyd yn y cyfarfod.
3. Y meysydd gwaith sydd yn berthnasol i'r Pwyllgor yma yw Amgylchedd a Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC). Dyma'r dyddiadau sydd wedi eu pennu gan yr adrannau ar gyfer y cyfarfodydd herio perfformiad nesaf.

Meysydd Gwaith	Pryd
Amgylchedd	5 Hydref 2026
Priffyrdd, Peirianeg a YGC	12 Hydref 2026

4. Argymhelliad y Fforwm Craffu yw y dylai cynrychiolwyr y pwyllgor fynychu cyfarfodydd herio perfformiad yr Adran Amgylchedd.
5. Bydd disgwyl i'r aelodau fynychu'r cyfarfod, gwrando ar y drafodaeth ac adrodd yn ôl i aelodau'r pwyllgor (gweler atodiad 1) unai yn y cyfarfod ffurfiol neu anffurfiol.
6. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau enwebu dau aelod i gynrychioli'r pwyllgor yng nghyfarfodydd herio perfformiad yr Adran Amgylchedd.**

MATERION YN CODI GAN YR AELODAU CRAFFU YNGHYLCH PERFFORMIAD YR ADRAN XXXXX

Yn dilyn cyfarfod herio perfformiad yr Adran xxxx, ar xxxxx, nodwch eich argraffiadau am berfformiad yr adran isod. Dylid osgoi nodi beth mae'r adran yn ei wneud yn ei gyfanrwydd gan ganolbwyntio ar berfformiad yr adran.

CYNLLUN Y CYNGOR - Prosiectau Blaenoriaeth
Oes cynnydd sylweddol wedi ei wneud gyda phrosiect blaenoriaeth?
Oes prosiect blaenoriaeth sy'n peri pryder oherwydd diffyg cynnydd?

PERFFORMIAD – Mesurau Perfformiad
Beth oedd yn dda?
Beth oedd yn codi pryder?

A oes unrhyw faes i'w graffu ymhellach? Beth sydd angen ei graffu a pham?